

ECO'R WYDDFA

RHIF 303

MEDI 2003

PRIS 40c

- Chwarae Criced yn Lords – tudalen gefn
- Colledion y Darans – teyrnged i ddau o weithwyr dylanwadol tîm Llanberis – tudalen 21
- Croesair – tudalen 23

Dathlu'r 100...



Mae un o frodorion bro'r Eco newydd ddathlu ei phen-blwydd yn 100 oed. Cafodd Mrs Kate Jones, gynt o Rhianfa, Saron, Bethel ei geni ar 24 Gorffennaf, 1903. Dyma'r flwyddyn pan hedfanodd dyn mewn awyren am y tro cyntaf – cyfnod cyn i ferched gael pleidleisio a chyn i'r byd glywed am Einstein, y Titanic ...ac Eco'r Wyddfa.

Fe gafodd Mrs Jones lu o gardiau gan ffrindiau a theulu yn ogystal â gair neu ddau gan Brif Weinidog Cymru, Rhodri Morgan, a'r Frenhines.

Daeth nifer i ddathlu gyda hi yng Nghartref Preswyl y Foelas, Llanrug, lle mae Mrs Jones yn byw yn awr.

Yn y llun mae rhai o Fethel fu'n dathlu yn y te parti a gafodde gan y Metron a staff Y Foelas. (chwith i'r dde) Mrs Kate Jones, Megan Humphreys, Elizabeth Jones a Cledwyn Thomas.

... a Llwyddiannau'r Eisteddfod

Bu dathlu hefyd yn y fro yn dilyn Eisteddfod Genedlaethol Maldwyn a'r Gororau. Mae'r rhai llwyddiannus yn rhy niferus i'w henwi i gyd ond roedd sawl un yn sefyll allan eleni.



Enillodd Mari Wyn Williams, 21 oed, o Lanberis, Ysgoloriaeth W. Towyn Roberts – er nad oedd hi wedi canu ar lwyfan yr Eisteddfod o'r blaen.

Mac Mari yn diolch yn arbennig i dri pherson am helpu iddi ennill y wobr o £3,000 – gwobr wedi ei hanelu at gantorion sydd ar fin dechrau eu gyrfa.

Ar ôl methu mynd ymhellach na'r rhagbrofion yn y

gorffennol, roedd Mari wedi dechrau anobeithio ond, ar ôl cyfarfod Bryn Terfel a chanu iddo pan ddaeth i lawnsio cynlluniau ar gyfer caffi copa'r Wyddfa, fe benderfynodd ddilyn ei gyngor a rhoi cynnig ar yr ysgoloriaeth.

Ond i'w thaid, Now Lewis, a fu farw llynedd, a'i nain, Beryl, mae'r diolch mawr gan mai nhw sydd wedi ei hysgogi ar hyd y blynyddoedd.




Un arall gafodd lwyddiant oedd Elin Mai, hefyd o Lanberis. Fe enillodd yr unawd i Ferched 12-16 oed. Mae Elin wedi cael llwyddiant o'r blaen – llynedd cafodd lwyfan yn yr Eisteddfod Genedlaethol a chynaf yn



Eisteddfod Llangollen. Mae hi'n ddisgybl yn Ysgol Brynrefail ac yn eistedd ei arholiadau TGAU y flwyddyn ncsaf. Ar ôl gadael yr ysgol mae'n gobeithio dilyn gyrfa yn y byd opera.

Llongyfarchiadau hefyd i Fand Deiniolen a fu'n fuddugol yng nghystadlaeth y bandiau pres. Roedd y beirniaid wedi mwynhau y perfformiad yn arw a'r to hyn yn y band yn falch iawn o weld cymaint o chwaraewyr ifanc yn dod a llwyddiant i'r pentref.

Llongyfarchiadau i Scindorf Arian Llanrug hefyd, ddaeth yn ail



Yn olaf, llongyfarchiadau i Alun Mabon o'r Waunfawr a ddaeth yn fuddugol yn y gystadlaeth 'Baled Wreiddiol'.

ECO'R WYDDFA

**RHIF 303
MEDI 2003**

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Gibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON
Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH
Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON
Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR
Gwynndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION
John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)

TREFNYDD BWNDELU
Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL
Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIAN POST
Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU
Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650788)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Elidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870394)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Dwm-y-Gwyni (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn
(675384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Ffynnon (871820)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-Y-LLŶ: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Yfaunfawr (880070)

Y RHIFYN NESAF
Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, MEDI 22
Os gwalwch yn dda
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, HYDREF 2

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Hydref	22 Medi	2 Hydref	Penisarwaun	Ann Evans	872407
Tachwedd	20 Hydref	30 Hydref	Llanberis	Gwilym Evans	870625
Rhagfyr	17 Tachwedd	27 Tachwedd	Caeathro	Clive James	677438
Nadolig / Ionawr	8 Rhagfyr	18 Rhagfyr	Ysgol Brynrefail	Eifion Jones (Prifathro)	672381

Llythyrau

Bwrdd Iechyd Lleol
Preswylfa
Ffordd Hendy
Yr Wyddgrug

Annwyl Olygydd

*Geiriaduron Termau Hybu Iechyd
a Iechyd Meddwl Plant a Phobl
Ifanc*

Mae'r Geiriaduron yn rhan o
waith parhaus gan y Pwyllgor
Termau, sydd yn cynnwys
gweithwyr proffesiynol o'r maes
iechyd a ariannwyd gan y cyn
Awdurdod Iechyd Gogledd
Cymru, gyda chefnogaeth
Canolfan Safoni Termau,
Prifysgol Cymru Bangor, sydd
wedi ymrwymo i wella
gwybodaeth gweithwyr
proffesiynol ac eraill sy'n
gweithio mewn amgylchedd
dwyieithog.

Yn gywir
Sharon Jones
Swyddog Iaith Gymraeg

Y Wenallt
Llanrug

Carwn trwy gyfrwng Eco'r
Wyddfa ddiolch yn fawr iawn i
bawb am fy nodd i gerdded
Cymru gyda Iolo Williams tuag
at Tŷ Hafan a Thŷ Gobaith.
Mae'r swm a gasglwyd erbyn
hyn yn £3,500 a diolch o galon i
Gwil Rees Parry am gasglu dros
£500 yn lleol tuag at achos mor
dcilwng.

Diolch i bawb
Gareth

Tŷ Croes
Crymlyn

Abergwyngregyn

Annwyl Gyfeillion

*Cinio Teyrnaged i
Ceinwen Davies*

Ar ddiwedd Awst eleni
ymddeolodd Ceinwen Davies
o'i swydd fel Cyfarwyddwr y
Gogledd efo'r Mudiad Ysgolion
Meithrin, gan adael bwlch o'i
hól fydd yn dipyn o hŷ i'w
holynydd geisio ei lenwi. Wrth
ymddeol, daeth â chyfnod o
rhyw chwarter canrif o
gysylltiad â'r Mudiad i ben ac
roedd ei chysylltiad yn
adlewyrchu twf a datblygiad y
Mudiad o glwstwr bychan digon
di-drefn i'r mudiad
cenedlaethol, datblygedig a
welir heddiw. Bu Ceinwen yn
gysylltiedig â chymaint o'r

datblygiadau a welwyd - fel
rhiant, fel athrawes ysgol
feithrin yn y dyddiau cynnar ac,
yn ddiweddarach, fel Swyddog
Datblygu ac fel Cyfarwyddwr y
Gogledd.

Rydym ni fel Pwyllgor
presennol Gwynedd yn trefnu
cinio ar nos Wener, 18 Hydref i
dalw teyrnged i Ceinwen am ei
holl ymroddiad a chefnogaeth
ac am yr holl hwyl a gawsom yn
ei chwmni. Rydym yn awyddus
i roi cyfle i unrhyw rai a fu'n
cydweithio gyda hi yn y Mudiad
ers talwm i ymuno hefo ni ar y
noson. Rydym yn apelio felly ar
i unrhyw un sy'n gwybod am
rywun allai fod â diddordeb
mewn mynychu'r noson i
gysylltu â mi cyn gynted â
phosibl am fanylion pellach.

Yn gywir,
Rhiannon Thomas
Ysgrifennydd

UNICEF
71 Blethin Close
Danescourt
Caerdydd

Torri syched plant y byd

Mae UNICEF yn galw ar
Gristnogion Cymru i gymryd
rhan yn ei apêl Gwydr Gras

Mae UNICEF, Cronfa Plant y
Cenhedloedd Unedig, yn galw
ar gynulleidfaoedd yng
Nghymru i gymryd rhan yn ei
apêl Gwydr Gras i ddod a dŵr
glân i filiynau o blant ledled y
byd. Mae'r Apêl Gwydr Gras yn
gwahodd Cristnogion i neilltuo
jar arbennig fel eu bod yn gallu
rhoi arian ynddo pan fyddant
yn dweud gras bwyd, er mwyn
codi arian i atal marwolaethau
diangen dros 8,000 o blant bob
dydd oherwydd eu bod yn yfed
dŵr budr.

Mae cael yfed dŵr glân yn
hawl dynol sylfaenol ac eto nid
yw hynny o fewn cyrraedd
hanner y ddynoliaeth. Mae bron
i dair biliwn o bobl yn byw heb
ddŵr glân ac yn wynebu
peryglon afiechydon fel colera,
dolur rhydd a dysentri. Mae'r
Apêl Gwydr Gras, a fydd yn
para tan fis Mehefin 2003, yn
codi arian yn benodol i helpu
UNICEF ddiogelu plant rhag y
peryglon o yfed dŵr budr, trwy
ddarparu tabledi puro dŵr,
gosod pymppiau dŵr a thabledi
halen i'r plant hynny sydd
eisoes yn wan oherwydd
afiechydon.

Dywedodd Lorraine Rees,
Rheolwraig Codi Arian
UNICEF yng Nghymru, 'Gall
cael gafael ar gyflenwad o ddŵr
yfed glân a diogel agor byd

newydd sbon i blentyn. Yn
hytrach na threulio oriau yn
cerdded at ffynhonnau i gasglu
dŵr, neu ddioddef o afiechydon
oherwydd dŵr budr, gall plant
fynd i'r ysgol a chwarae gyda'u
ffrindiau. Mae dŵr diogel yn
rhoi iechyd ac addysg i blant ac,
yn bwysicach, mae'n rhoi
iddynt eu plentynod.'

Mewn sawl teulu, y menywod
neu'r merched sydd yn casglu
dŵr bob dydd. Mae plant bach,
mor ifanc â phump oed, yn
cludo llwyth trwm ar eu cefnau
am bellteroedd. Mae'r plant hyn
yn colli cyfle i gael addysg
oherwydd eu bod yn treulio'r
rhan fwyaf o'r dydd yn cario
dŵr. Maent yn colli'r cyfle i
weithio eu ffordd allan o'r tldi
y maent yn byw ynddo. Trwy
ddarparu dŵr glân mae modd
eu rhyddhau o'r baich corfforol
o gario dŵr ar eu cefnau, yn
ogystal â'r baich o fod wedi'u
dal mewn cylch o dlodi.'

Mae afiechydon yn
gysylltiedig â dŵr fel dolur
rhydd yn fygythiad marwol i
blant sy'n dioddef o ddiffyg
maeth. Mae eu system
imiwnedd yn wan ac ni allant
ymladd yn erbyn heintiau. Mae
dwy filiwn o blant yn dioddef
dolur rhydd bob blwyddyn ac er
mwyn eu trin mae UNICEF yn
dosbarthu tua 26 miliwn o
sacheidiau o halen yn flynyddol.
Saith geiniog ydy cost pob sach:
gall pum sach - gwerth 35
ceiniog - drin plentyn sydd yn
dioddef o ddolur rhydd.

'Trwy gymryd rhan yn Apêl
Gwydr Gras UNICEF bydd
cynulleidfaoedd ledled Cymru
yn helpu UNICEF i ddosbarthu
tabledi halen a phuro dŵr, yn
ogystal â gosod pymppiau dŵr i
blant a fyddai fel arall yn gorfod
cerdded milltiroedd i gasglu
dŵr budr,' ychwanegodd
Lorraine.

- Bydd £2 yn prynu 28 o
sachau halen - digon i achub
bywydau chwe plentyn
- Bydd £25 yn prynu 350 dôs o
halen - digon i achub
bywydau 70 plentyn
- Mae £75 yn ddigon i brynu
tabledi puro dŵr i roi litr o
ddŵr glân i 800 o blant
- Bydd £175 yn prynu ac yn
gosod pwmp dŵr a fydd yn
gwasanaethu cymuned o 250
o bobl

Am ragor o wybodaeth i gymryd
rhan ac i archebu deunyddiau
Gwydr Gras ysgrifennwch at
UNICEF, Blwch PO 5047,
Caerdydd CF5 2WT, neu e-
bostiwrch lorraine@unicef.org.uk.

SBRI'R YSGOLION SUL

Cynhaliwyd Sbri go iawn i aelodau Ysgolion Sul Henaduriaeth Arfon, bawn Sul, 13 Gorffennaf yn Ysgol Brynrefail. Daeth oddeutu 100 o blant i fwynhau'r amrywiol weithgareddau. Agorwyd y Sbri gydag anerchiad ddifyr gan Llion Jones. Bu'n olrhain ei atgofion melyn ac amhrisiadwy ef o ddyddiau Ysgol Sul a phwysleisiai pa mor werthfawr y buont iddo ef. Yna fe fwynhaodd pawb yr amrywiol weithgareddau.

Fe gawsant gyfle i greu a gwneud cardiau a lluniau bendigedig; mwynhau chwaraeon ar y cae; mwynhau'r diod wedi'r

chwysu; ymuno a mwynhau dawnsio gwerin; ymlacio a gwrando ar stori dda a chyd-ganu caneuon gyda digon o symudiadau ynddynt. Fe fwynhaodd y plant oed Uwchradd gêm o golff gyda Llion.

Diweddwyd gyda gair byr a'r Fendith gan y Parch John Pritchard, Llanberis. Dymunir diolch i bawb a gymerodd ran yn llwyddiant y Sbri, a hynny ar bawn mor eithriadol o boeth.

Diolch arbennig i'r rhai fu'n trefnu, y rhai fu'n paratoi y gwahanol weithgareddau ac i Brifathro a Gofalwr Ysgol Brynrefail am eu cydweithrediad.



Dawnsio Gwerin



Gweithdy Celf



Aelodau Sant Ioan with law o hyd.



Llymaid i bawb wedi'r chwaraeon.

Clwb Eryri

Dydd Sadwrn, 28 Mehefin arweinwyd yr aelodau ar bererindod i Benrhyn Llŷn gan Frank Green. Gyda'r haul yn tywynu, dilynwyd Taith y Pererinion o Glynog Fawr i Ynys Enlli, gydag ambell sgwrs ac ymweliad diddorol ar y ffordd. Cyn troi am adref aeth bws â ni i lawr y rhiw serth i Nant Gwrtheyrn a chawsom swper ardderchog gan Gwyn yng Nghaffi Meinir. Rhwng Tre'r Ceiri a'r Nant, arhosodd y bws a chafwyd cyfle i drafod y trefniadau ar gyfer y tymor i ddod. Penderfynwyd yn unfrydol ethol â ganlyn i'r swyddi a ddynodir:

Geraint Elis (Llywydd); Ralph Jones (Is-Lywydd); Eurwyn Lloyd Evans (Trysorydd); Eurwyn Jones (Is-Drysorydd); Frank Green (Trefnydd y Wibdaith); Bert Parry (Cofnodydd); Gwyn Hefin Jones (Ysgrifennydd).

Manteisir ar y cyfle i atgoffa'r aelodau bod cyfarfod cyntaf y Clwb am y tymor newydd ar nos Wener, 3 Hydref am 7.30 yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Y siaradwr fydd y Llywydd, Geraint Elis, Bethel gyda'r Is-Lywydd, Ralph Jones, Llanberis yn cadeirio. Taer erfynnir am gefnogaeth deilwng ar y noson.

Cylch Llenyddol Caernarfon a Gwyrfaï

Croeso i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa i gyfarfodydd y Cylch Llenyddol fydd yn dechrau ym mis Medi. Mae'r rhaglen eleni yn cynnwys rhai o enillwyr prif gystadlaethau'r Eisteddfod Genedlaethol, gan gynnwys Cefin Roberts a Twm Morys. Byddwn yn cyfarfod bob mis yn Ystafell Gymuned Llyfrgell Caernarfon am saith o'r gloch, ac mae croeso cynnes i bawb. £6.00 y flwyddyn yw'r tâl aelodaeth Dowch i glywed Cefin Roberts yn sôn am ei nofel, 'Brwydr y Bradwr', nos Fawrth, 16 Medi, ac i fwynhau cwmni'r Prifardd Twm Morys nos Fawrth, 21 Hydref. Mae rhallen y flwyddyn ar gael gan yr Ysgrifennydd, Llinos C. Davies (Ffôn: 674478).

Pensaer Yr Orsedd yn derbyn Gwahoddiad gan Y Frenhines



Mr Ifan Lloyd Williams a'i wraig Beryl a dderbyniodd wahoddiad gan yr Arglwydd Siambren, wedi ei orchymyn gan Ei Mawrhydi Y Frenhines, i barti Yn Mhalas Buckingham ar ddydd Mawrth 22 Gorffennaf.

Dyma fydd ei ddeugeinfed blwyddyn ers pan ofynwyd iddo weithio fel Pensaer Gorsedd y Beirdd, Yr Eisteddfod Genedlaethol. Y flwyddyn honno, daeth y frenhines a'r Dug i'r Eisteddfod dan Lywyddiaeth Syr T. H. Parri-Williams a'r Archdderwydd, Syr Cynan.

Ef sy'n gyfrifol am godi'r cylch cerrig a welir ar draws Cymru bellach. Mae wedi ymddeol bellach o fod yn Uwch Athro a Phennaeth Adran Adnoddau yn Ysgol Bryn Elan. Roedd hefyd yn Llywydd Undeb Cenedlaethol Yr Athrawon yng Nghlwyd am chwe blynedd. Ganwyd ef ym Meddgelert ac ef oedd yn gyfrifol am y cylch ym Mhorthmadog, Bangor a Chaernarfon.

SPAR

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: (01286) 672790

Ar agor bob dydd o'r wythnos at eich gwasanaeth

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn archeb i'ch cartref yn ardal Llanrug



CARPEDI GERAINT OWEN

GWERTHWYR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONTWCH UNRHYW AMSER:

WAUNFAWR (01286) 650552

O SIAMBAR SELWYN

'Ar fôr tymhestlog' teithio roeddwn i rywle rhwng Iceland, (Gwlad yr Iâ) a Greenland, (Yr Ynys Las), ac wedi mynd i'r gwasanaeth bore Sul ar fwrdd y llong *Saga Rose*.

'Ar fôr tymhestlog' teithio roeddwn i rywle rhwng Iceland, (Gwlad yr Iâ) a Greenland, (Yr Ynys Las), ac wedi mynd i'r gwasanaeth bore Sul ar fwrdd y llong *Saga Rose*.

Roedd hi'n fore oer, y môr yn jeli o donnau a brynau o eisbergs o'n cwmpas.

Côr o Philipinos, sef gweithwyr ar y llong, oedd yn agor y gwasanaeth, drwy ganu emyn. Rwan, tydw i fawr o ganwr, ychydig iawn o ddiddordeb sy' wedi bod gen i mewn canu erioed, er mawr gywilydd i mi. Ond, fe ges sioc y bore Sul hwnnw rhwng Gwlad yr Iâ a'r Ynys Las o glywed y côr o Philipinos yn canu geiriau cyfarwydd iawn i mi:

'Mi glywaf dyner lais
Yn galw arnaf fi.'

Na, nid breuddwydio roeddwn i. Roeddwn nhw'n canu mewn Cymraeg perffaith. Wedi holi, cefais wybodaeth iddynt ddysgu'r geiriau yn gwbwl ffonetic ac fe gefais gopi o'r emyn yn union fel y bu iddynt ei dysgu.

'Me glowad dan ner layes
An galo ar na vi
E dohd ar golkhi ma yay gid
An avon Galvary

Ar cloyd damma vi
Ar da alwad di
Golkin mirlam an a gwayd
A gayd ar Galvary.'

A dyma'r pennill ola.

Go gonyant beth am trevn
A camodh ar glanhad
Der vonyabh Yesse vel aroyve
a khannav am y gwayd.'

Do, mi genais innau gyda'r côr o Philipinos y bore Sul hwnnw, ar fôr eitha tymhestlog ar ein taith i Disko Bay yn Greenland.

* * *

Greenland ydi'r ynys fwy yn y byd, ac mae 85% ohoni o dan iâ trwchus drwy gydol y flwyddyn. I chi gael rhyw syniad o faint yr ynys, mae o'r de i'r gogledd yn 1,725 o filltiroedd, ac mae ar draws o'r dwyrain i'r gorllewin ar gyfartaledd o 625 milltir. Gyda llaw mae tewder yr iâ tua 2.5 kilomedr.

Poblogaeth Greenland ydi 55,000 gyda'r mwyafrif yn naturiol yn byw ar arfordir y de-orllewin. Dim ond o fewn i'r trefi y gwelir ffyrdd. Does na'r un ffordd yn cysylltu y gwahanol drefi â'i gilydd. Mae hyd yn oed y plant lleiaf yn gorfod aros yn yr ysgolion dros y tymhorau. Byddai'n gwbwl amhosibl i'r plant drafailio yn ddyddiol i'r ysgol, oherwydd does 'na ddim ffyrdd, ac yn y gacaf byddai'n amhosibl teithio oherwydd yr eira.

Prifddinas Greenland ydi

Nuuk, neu Godthaab yn iaith y brodorion. Ei ystyr ydi 'good hope'. Dyma'r dre fwy gyda phoblogaeth o 13,000. Yma mae prifysgol y wlad, yr amgueddfa genedlaethol ac, wrth gwrs, y Senedd. Oddi yma hefyd mae Santa Clôs yn anfon ei gyfarchion blynyddol i holl blant bach y byd. Croes i'r arferiad yntel! Plant fel arfer sy'n anfon at Santa.

Mi fûm i yn Nuuk o'r blaen, ar y daith i Ganada ychydig flynyddoedd yn ôl, ond fûm i erioed yn Disko Bay, yr ynys fwy oddi ar arfordir Greenland, tua 400 kilomedr i'r Gogledd o Gylch yr Arctic. Dyma'r lle pella y gallwch chi fynd hyd yn oed yn yr haf, cyn dod wyneb yn wyneb â môr o rew. Mae'r eisbergs yma yn anhygoel, a'r gwahanol faint a'r siapiau yn syfrdanu un. O ddefnyddio eich dychymyg, fe welwch chi eglwys a chestyll enfawr, elyrch ac eirth. Do mi welais i Dŷ Opera Sydney yno hefyd a sawl teisen briodas, a sawl llong hwyliau wedi rhewi'n solet. Y cyfan wedi eu cerfio'n gywrain drwy wyrth Natur.

Mae'n anodd coelio bod rhew miliynau o flynyddoedd oed yn cael ei dorri'n giwbiau a'i allforio o Disko Bay i'w ychwanegu at ddiodydd yn Japan a nifer o wledydd Ewrop. Fe gwch fwynhau y golygfeydd gwyrthiol hyn drwy gydol y dydd a'r 'nos', oherwydd, 'ac ni bydd nos yno' ydi hanes y rhan yma o'r byd rhwng Mai a Gorffennaf.

Daw Greenland o dan adain Denmarc, ond ers 1979 cafwyd hunan-lywodraeth yno, sy'n caniatáu i'r ynyswyr wneud eu penderfyniadau eu hunain ynglŷn â pholisiau cartref ac, i raddau helaeth, eu polisiau tramor hefyd. 31 o aelodau sydd yn Senedd Greenland, ac yn Senedd Denmarc mae yna ddau aelod sydd wedi eu hethol gan bobol Greenland. Yr iaith swyddogol ydi Greenlandic, ond fe all y mwyafrif siarad Daenag fel ail iaith. Mae addysg yn rhad ac am ddim, ac mae pob plentyn dan orfodaeth i dderbyn 11 mlynedd o addysg gynradd. Yna mae hawl ganddynt i adael ysgol, naill ai i ysgol uwch, ac yna i goleg, neu i ddysgu crefft. Mae'r rhan fwy sy'n graddio yn dilyn cwrs prifysgol yn Nenmarc.

Mae gofal iechyd yn rhad ac am ddim yno. Ceir ysbytai yn y trefi mwya a chlinigau yn y trefi llai, ac mae nyrsus yn y pentrefi. Mae hofrennydd wrth law i gludo rhai sydd mewn argyfwng i'r ysbytai agosaf. Os na ellir

sicrhau triniaeth foddhaol yn Greenland, yna fe drefnir i hedfan y claf naill ai i Denmarc neu i Wlad yr Iâ. Fe ddigwyddodd hyn i un o'r teithwyr a oedd gyda ni ar y fordaith.

Câf gyfle i sôn am rai o ryfeddodau Gwlad yr Iâ rywbryd eto o bosib.

* * *

Mae'r byd yn fach. Cyfarfod a gŵr sy'n byw yn Dawlish ar y llong. Cymro, genedigol o Lansilin. Roedd o yn y coleg ym Mangor yr un adeg â Merêd, Islwyn Ffawc Elis a'r criw. Roland Thomas oedd ei enw. 'Roeddwn i yn y llynges,' medda fo 'hefo un o'r enw Frank Rhys Jones o gyffnia' Caernarfon 'na.

Ydach chi'n i nabod o?' Wrth gwrs yr oeddwn yn ei nabod. Byw yn yr un stryd â fo. Ein dau yn chwarae'n y gôl i Gaernarfon, ac yn aelodau yn yr un capel. Frank, cyn brifathro Ysgol Dyffryn Ogwen, - bellach wedi ein gadael.

Ddiwrnod ar dod adre, mynd i'r gwasanaeth bore Sul yng Nghapel Bethel. Doedd 'na ddim côr o'r Phillipines yno. Na, dim ond rhyw ddwsin ohonom fel arfer. Ond yno, fe ddychmygais glywed rhyw gôr o bobol ifanc yn canu yn y pellter, 'Mi glywaf dyner lais

Yn galw arnaf fi.'

Bydbach? Ia, o bosib, ar brydiau. Ond byd llawn o ryfeddodau.



STEPHEN JONES

† Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol
Profiadol



Harddwch eich cartref gyda

**FFENESTRI
CELTIC** WINDOWS

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



(01286) 678618 (dydd)

(01248) 670081 (nos)



Brethyn Glân y Defaid Mân

Ar y stondinau crysau T yn y Steddfod roedd dau fath yn gwerthu'n dda. Y cyntaf oedd crys coch gyda'r rhif 10 a'r enw Hughes arno. Yr ail oedd un â'r gair 'Cneifiwr' arno. Wn i ddim ai cyfeiriad at un o lysenwau'r Cymry ydoedd, neu i gronclo'n dawn yn y maes hwn. Ie, cofiwch fod dau gneifiwr o Gymru wedi sefydlu record byd yn ddiweddar.

Ddechrau Awst cynhaliwyd cystadleuaeth gneifio ar faes parcio Tafarn y Gors Bach, Llanddeiniolen. Denwyd lluo o gystadlwyr a gwylwyr yno ar ddiwrnod crasboeth.

Roedd tri dosbarth i ymgiprys amdanynt: yr adran 'iau' i rai nad ydynt yn gwneud bywoliaeth o'r gamp, yna dosbarth agored i rai mwy profiadol. Y dasg yn y ddwy gamp yma oedd cneifio un ddafad a cafwyd chwip o gystadleuaeth yn yr adran iau. Diolch fod yno 'stopwatch' hynod gywain i gronclo'r amser. Aeth y wobwr gyntaf allan o'r plwy a'r dyffryn, i Ddyffryn Ogwen gyda Mei Roberts o Fethesda yn cyflawni'r dasg mewn 42.4 eiliad. Un snip i ffwrdd, mewn amser o 42.6, oedd John Williams (Cefn) ac yn drydydd Elwyn Griffiths (Lôn Glai) mewn amser o 52 eiliad. Braf gweld y ddau lleol â'u gwreiddiau'n ddwfn yn Nant Peris yn cynnal un o'r hen grefftiau amaethyddol. Yr oeddent ill tri yn llwyr haeddu'r gwobrau o £50, £25 a £10. Diolch i gwmni Owen Evans, Llannerch-y-medd, sy'n arbenigo mewn offer cneifio, am eu nawdd hael i'r gystadleuaeth.

Yna daeth yr hen lawiau at y bwrdd cneifio, ac yn arwain y

ffordd ein cefndryd o 'wlad y cwmwl gwyn', sef Seland Newydd. Ac am safon a gafwyd. Yr oeddynt yn ymgiprys am wobrau o £100, £50 a £25 yn rhoddedig gan William Davies (Wil Gors Bach).

Yr enillydd yn y dosbarth agored oedd Rhys Seymour (26.6 eiliad) ac yn ail Russell Smith (30 eiliad). Y ddau ohonynt o Seland Newydd. Ond cael a chael oedd hi am yr ail wobwr. Yn drydydd agos iawn (30.7 eiliad) oedd Berwyn Jones o Ysbyty Ifan.

I gwblhau y cystadlu roedd dosbarth agored, ble roedd yn rhaid cneifio tair dafad. Y wobwr tro yma oedd offer cneifio cyflawn wedi eu rhoi gan gwmni Welsh County Foods (Gaerwen). Wel sôn am gneifio. Y chwysu, y ddisgyblaeth, y grefft, y nerth. Yn amlwg rhaid oedd ceisio torri crib y 'Teirw Duon' o dramor. Ofer fu'r ymdrech ond mor agos. Rhys Seymour (1munud 52 eiliad) yn gyntaf, Russ Smith (1munud 52.5 eiliad) yn ail ac Arwel Jones, bachgen 'lleol' yn drydydd mewn 1munud 52.9 eiliad. Gweldd o grefft yn wir, a gobeithio y bydd y diwrnod blynyddol yma yn mynd o nerth i nerth.

Diolch i Idris Morris, Fachell am ei nawdd ac i Wil Arthur am roddi'r defaid. Fel eu 'meistr' roedd y defaid yn hollol ddisgybledig, ond yn wahanol i'w ddefaid, gwrthod cael ei gneifio wna Wil Arthur. Roedd y 'cyrls' yn aros yn eu lle! Gyda llaw, diolch hefyd i'r 30 o gneifwyr a fentrodd. Yn amlwg mae digon o ddiddordeb i gynnal ac ymestyn cystadleuaeth o'r fath.

Chwifio'r Faner dros Gymru



Gan fod nifer dda o aelodau Côr Meibion Dinas Bangor yn byw yn ardal yr Eco dyma adroddiad byr o daith lwyddiannus y Côr yn ystod mis Awst.

Ar y cyntaf o fis Awst aeth aelodau Côr Meibion Dinas Bangor i Lorient yn Llydaw i gymryd rhan yng ngŵyl fawr Geltaidd flynyddol y dref. Yr oedd y côr yn cynrychioli Cymru yn yr ŵyl. Cafwyd deg diwrnod hynod o brysur a llwyddiannus gyda nifer fawr o gyngherddau, weithiau mewn gwres cyn uchod â 100 gradd! Ar dair noson cymerodd y côr ran bwysig mewn tri chyngerdd gyda bandiau pibau o'r gwledydd Celtaidd a dawnswyr. Uchafbwynt pob noson oedd band pibau o Sterling yn yr Alban, band pres lleol a Chôr Bangor, y cwbl dan arweiniad James Griffiths, yn chwarae a chanu hefo'i gilydd a'r gynulleidfa o 10,000 yn gwirioni efo'r sŵn gwefreiddiol. Cynhaliwyd y cyngherddau hyn yn stadiwm bêldroed enfawr Moustoir. Canodd y côr hefyd mewn sawl cyngerdd ar ben ei hunain yn Eglwys St. Louis, adeilad anferth a godwyd ar ddiwedd y rhyfel ar ôl chwalu'r eglwys wreiddiol gan y bomio

didrugaredd a fu yn Lorient, oherwydd mai dyma bencadlys mwyaf llongau tanfor, yr U-Boats, gan yr Almaenwyr.

Nid oedd hi'n bosibl i bob aelod o'r côr fynd ar y daith ond aeth 44 a Gwilym Lewis yn cyfeilio, yn absenoldeb Lowri Roberts Williams, cyfeilydd y côr.

Cynrychiolwyd ardal Eco'r Wyddfa gan Gwilym Jones, Gareth Jones, Bob Thomas, Gwyndaf Williams a Huw Harri Williams o Fethel; Elwyn Jones a Robert John Williams o Landdeiniolen; Dafydd Ellis, Gwyn Hefin Jones ac Islwyn Jones o Frynrefail; Owain Myfyr Parry o Lanrug a Gwilym Evans o Lanberis.

Yn ystod gweddill Awst yr oedd gan y côr ddau gyngerdd - yn Llandudno a Bangor Yn ystod Medi bydd y Côr yn canu unwaith eto yn Eglwys St. Ioan, Llandudno a hefyd ym Metws y Coed. Yn ystod y flwyddyn y mae'r Côr wedi bod yn hynod brysur hefo nifer fawr o gyngherddau.

Bydd y côr yn cyfarfod yn Ysgol y Faenol, Penrhos, Bangor bob nos Fercher o 7.30 hyd at 9.30. Bydd croeso i ymwelwyr ddod i wrando ac i ddarpar aelodau.

Un funud fach

ADFERIAD

Hyd yma dim ond un o raglenni'r gyfres 'Restoration' ar BBC2 a welais, ond fe'i mwynheais yn fawr. Mae'r rhaglenni'n dangos adeiladau bregus o bob cwr o wledydd Prydain. Ar ddiwedd y gyfres bydd miliynau o bunnoedd ar gael i adfer un o'r adeiladau hyn. Bydd gan bob adeilad ei ladmerydd ei hunan i bledio'i achos cyn i'r gwylwyr, trwy bleidlais ffôn, ddewis yr adeilad buddugol.

Yn y rhaglen a welais i roedd Roy Hattersley, y cyn Aelod Seneddol, yn egluro pam y dylid adfer hen gapel yn Kings Wood ger Bryste. Codwyd y capel syml hwn yn 1741 gan George Whitfield, un o sylfaenwyr Methodistiaeth yn Lloegr. Ehangwyd y capel yn 1802 ac yn 1830, ond yn ddiweddar difethwyd ef gan dân difrifol. Cred Hattersley y dylid adfer capel Whitfield er mwyn anrhydeddu a chosio 'gŵr o argyhoeddiad enfawr... a gyscgrodd ci holl fywyd i hyrwyddo'r hyn a gredai oedd yn wir'. Whitfield, meddai, oedd 'un o'r dynion a luniodd ganrif gyfan' ac a 'adeiladodd y wlad hon'.

Mae Roy Hattersley yn ymrwngthod yn llwyr â'r Ffydd Gristnogol. Mae'n anghydweld â Whitfield 'ynghlŷn â'r hyn sy'n

gwneud bywyd da, a ffordd iachawdwriaeth, a threfn achubiaeth, a natur moesoldeb'. Ond mae'n cydnabod bod Methodistiaeth Whitfield wedi cael effaith fawr ar fywydau pobl gyffredin a'u gwneud yn bobl barchus, geirwir, addfwyn a gonest.

Ac mae geiriau Hattersley yn her i bawb ohonom sydd yn arddel Ffydd Whitfield a Ffydd Cristnogion yr oesoedd. A'r her yw i ni - nid i ddiogelu hen gapeli (mae honno'n ddadl arall!) - ond i fyw y bywyd Cristnogol yn y fath fodd fel bod hyd yn oed anffyddwyr yn gweld ein bod o ddifrif ynghlŷn â'r Ffydd; a bod y Ffydd honno yn cael dylanwad mawr a chadarnhaol ar ein hymddygiad o ddydd i ddydd. 'Llewyrched felly eich golcuni gerbron dynion' oedd ffordd yr Iesu o osod y peth.

A gyda llaw, ar wefan y gyfres deledu mae'n nhw'n honni mai'r capel hwn 'is the second non-conformist chapel ever built in the world with its only predecessor being the John Wesley New Rooms in Bristol, built in 1739.' Yn amlwg chlywsom nhw ddim am Annibynwyr a Bedyddwyr Cymru (a Lloegr o ran hynny) oedd wrthi'n codi capeli ddeugain mlynedd cyn hyn, yn dilyn Deddf Goddefiad 1689.

JOHN PRITCHARD

ECO'R WYDDFA

INCWM A GWARIANT AM Y FLWYDDYN I 31 MAWRTH 2003

2001-02

Incwm		
7269.09	Gwerthiant	7016.93
9333.50	Hysbysebion	10386.20
0.00	Dosbarthu taflenni	136.00
870.80	Rhoddion	848.50
	Grantiau	
1000.00	Bwrdd yr Iaith Gymraeg	1000.00
	Gynghorau Cymuned.	
299.99	Llanberis	0.00
299.99	Llanddeiniolen	300.00
500.00	Llanrug	500.00
29.99	Betws Garmon	0.00
300.00	Vaunfawr	100.00
		1900.00

4.71

Liog Banc

10.99

19803.10

20306.59

Gwariant

17070.21	Argraffu	18613.86
94.99	Ffotograffiaeth	50.00
340.00	Post	320.91
45.00	Gwobrau Croesair	50.00
36.00	Cystadleuaeth Pel Droed	-86.10
6.00	Costau eraill	60.00
		19008.27

1999.99

Elw (Gollod) am y flwyddyn

1298.26

CHWILOTA

O'r Sychnant i Bwll Arch



Addewais yn y rhifyn diwethaf i gynnwys gwybodaeth am enwau llafar a gofnodwyd gan Alan Roberts, Llainwen Isaf, Llanberis. Mae'r ardal dan sylw yn ymestyn o Fwlch y Groes i Gwm Tŷ Du, Y Dinas a glannau afon Goch at gyrion pentref Llanberis. Dyma ardal a fu unwaith yn gartref i nifer o fân dyddynnod yn ogystal â bod yn gyrchfan gweithwyr yn y chwareli llechi ar lethrau uchaf y Cefn Du. Mae'n ffinio, wrth gwrs, â'r ardal y sonnir amdani gan Rol Williams yn ei lyfr diweddar *Pobol tu ucha'r giât*.

Bellach, does neb yn byw yn barhaol yn y rhan hon o'r fro, ac y mae'r holl dyddynnod yn prysur mynd â'u pen iddynt. Tybed a oedd gan yr hen drigolion enwau unigol am y clytwaith o gaeau bychain o amgylch eu cartrefi, yn ogystal ag enwau am rai o nodweddion y dirwedd? Erys rhai enwau ar gof. Mae craill wedi eu cofnodi ar wahanol fapiau. Gwnaeth Alan gymwynas â ni trwy gofnodi'r enwau sy'n parhau i gael eu defnyddio ganddo. Yn fwy na hynny, cofnododd hwy hefyd ar fap, ac y mae eu lleoli cyn bwysiced â chofnodi'r enwau eu hunain.

Mae afon Goch yn tarddu ar lethrau gogleddol Moel Eilio ac yn ffurfio'r bowlen o gwm a elwir Cwm Tŷ-du. Yr unig fferm yn y safle hon yw Cwm ucha'. Cafwyd gwybodaeth am yr olwyn gorddi oedd ynghlwm â'r tŷ rai blyneddoddd yn ôl yn yr 'Eco'. Mae nifer o fân nentydd yn tarddu ar y lethrau yma, ac un ohonynt yw'r Sychnant. Yn ôl Alan, fe'i gelwir wrth yr enw hwn oherwydd ei bod yn llifo'n chwyrrn ym misoedd y gaeaf, ond yn berffaith sych yn ystod misoedd yr haf. I'r ddeddwyrain o'r Sychnant, yn swatio yng nghysgod Bryn Mawr, mae corlan sy'n parhau i gael ei defnyddio. Yn ddigon naturiol, fe'i gelwir yn Corlan Mynydd. Gan ddilyn afon Goch o Gorlan Mynydd i lawr i gyfeiriad Macnllwyd uchaf, deuir at bwll yn yr afon a elwir Yr Olchfa. Hyd at ddechrau'r 1970'au roedd y pwll yn parhau i gael ei ddefnyddio i olchi defaid cyn eu cneifio.

Mae'r afon bellach yn llifo'n gyfochrog â'r lôn sy'n disgyn o'r Maenllwyd i gyfeiriad Llanberis. Ar yr ochr chwith mae adfeilion Ty'n 'rardd, a Macnllwyd isaf ar y ddc. Ar draws yr afon, ar dir Cae'r Frân, mae cae a elwir yn Cae Lloua. Yma yn draddodiadol roedd llo'i yn cael eu cadw ar ôl eu dyfnu. Eto, ar dir Cae'r Frân, ceir Cae Hetai. Mae'r

enw'n eithaf cyffredin, ac yn cyfeirio at siâp y cae dan sylw. Nepell o Gae Hetai, ac ar draws afon Goch, roedd Pont Llwybr (sef llwybr a arweinai at ffermdy Cae'r Frân). Mae'r bont wedi ei dymchwel ers blyneddoddd, ers 1924 i fod yn fanwl gywir, oherwydd yn y flwyddyn honno llithrodd ceffyl gwedd ar y bont, gan ddisgyn a thorri asgwrn ei gefn. Colled fawr i ffermwr bryd hynny.

Gan ddilyn yr afon unwaith eto, down at Bwll Arch. Pam tybed y galwyd y rhan hon o'r afon wrth y fath enw? Ers pryd mae'r enw'n bodoli? Yn ôl gwybodaeth gan Alan, boddwyd bustach Cae'r Frân yma tua saith deg o flynyddoddd yn ôl. A oedd y ffaith i'r bustach ddiweddu ei oes mewn bedd dyfrllyd yn ddigon o reswm i enwi'r rhan hon o'r afon yn Bwll Arch? Led cae islaw i Bwll Arch mae Pont Sarnau, sef y bont - haearn ers talwm, ond coed erbyn hyn - sy'n cario'r llwybr cyhoeddus o Lwyn Celyn ar draws i gefn Bron Eryri. Ac wrth gwrs, gerllaw mae Pwll Batus, y soniwyd amdano eisoes mewn rhifyn blaenorol o'r 'Eco'.

Ond nid enwau'n ymwneud ag afon Goch yn unig sydd wedi eu cofnodi. Mae'n sôn am Tŷ Walker ar dir Cae'r Meinciau. Mae olion chwarel Cae'r Meinciau islaw'r hen ffordd o Fwlch y Groes i'r Macnllwyd. Pwy oedd Walker tybed? Ac onid yma roedd cartref dros dro y Gwyddel druan a laddwyd mewn ffræ feddwol ychydig dros ganrif yn ôl?

Mae gweddill yr enwau'n ymwneud â ffrwd arall sy'n llifo o gyffiniau Tŷ Newydd i Fron Olau. Uwchlaw Tŷ Newydd mae Yr Ynys, ac yna daw cacau o'r enw Waen Bengrych a'r Weirglodd. Yna, Cae dan lôn, ble bu tyllu i gael gro ar gyfer adeiladu tai Llainwen. Mae'r ffrwd yn llifo o dan y lôn sy'n arwain o Fron Olau i Llainwen. Mae'r pantle

hwn yn cael ei alw yn Pant'rafon, a laddwyd geneth ddeuddeg oed yma yn 1911 pan ddisgynnodd carreg fawr arni a'i gwasgu i farwolaeth.

Ffasiwn mewn bwydydd

Dyma gadw at addewid arall o'r rhifyn diwethaf. Anfonwyd nodiadau i mi gan Mrs Eirlys Williams, Pentre Helen, Dceniolen yn sôn am arferion y cartref. Mae'n cychwyn drwy sôn am ddigwyddiad a achosodd gryn benbleth i'w nain, a hynny dros ganrif yn ôl. Roedd cyfnither i'w nain yn byw yn yr America, ac un tro anfonodd barsel o wahanol fwydydd i Dceniolen. Yn eu plith roedd India corn ar y cobyn (*corn on the cob*). Ni welwyd dim tebyg iddo o'r blaen yn Neiniolen, a doedd dim syniad gan neb o'r teulu beth i'w wneud ag o. O'r diwedd, penderfynwyd clymu ruban amdano a'i hongian ar y wal. Bu yno fel addurn nes i'r corn i gyd ollwng oddi ar y coesyn, a thaflwyd ef i ffwrdd!

Yn ystod wythnos yr Eisteddfod Genedlaethol rhoddwyd sylw i Delynores Maldwyn a'r gred mai hi fu'n gyfrifol am awgrymu rhoi llun ceiliog ar focus Corn Flakes y Brodyr Kellog. Ers pryd tybed y mae cynnyrch Kellog yn cael ei werthu yn y wlad hon? Y cof gan Mrs Williams yw mai dau fath yn unig o fwyd brecwast y gellid ei brynu o'r siop ers talwm, sef uwd a corn flakes o'r enw 'Sunny Jim'. Oes rhywrai craill yn cofio'r enw? Y bwyd arferol oedd tafell o fara wedi ei fwydo mewn dŵr neu lefrith. Roedd amrywiaethau ar hyn wrth gwrs; cynhwysai fara llefrith lwmp o fenyn a phinsiad o halen, ond os ychwanegid wy wedi ei guro, yna maidd yr iâr oedd y pryd bwyd. Byddai oxo hefyd yn cael ei ychwanegu ato, ac yr oedd hwn yn ddigon poblogaidd i'r gwneuthurwyr ei hysbysebu yn Gymraeg yn rhifynnau *Cymru'r Plant*. 'Gwell un oxo yn y tŷ na dau ar silff y groser'.

Swper Chwarel oedd prif bryd bwyd pob diwrnod, ac yr oedd bron yn ddiethriad yn cynnwys cig, er mai'r tameidiau rhataf fyddent gan amlaf. Roedd cig cwnigen yn boblogaidd hefyd. Roedd pen mochyn yn cael ei ddefnyddio i wneud brôn, a phen dafad yn cael ei ferwi, ynghyd â'r iau a'r galon, i wneud nifer o brydau blasus. Ac wrth gwrs roedd lobsnows a lobsnows ail-dwym yn boblogaidd hefyd.

Cinio dydd Sul oedd cinio pwysicaf yr wythnos. Roedd yn cynnwys ysgwydd dafad a darn o gig eidion. Fel arfer,

byddai digon ar ôl i swper nos Sul ac i roi ar frechdanau i fynd i'r chwarel ddydd Llun.

Pwddin reis oedd y pwddin traddodiadol, ac 'yn llawer mwy blasus na'r pwddin di-groen a geir mewn tun y dyddiau hyn'. Yn ôl y tymhorau, byddai pwddin siwat hefo mwyar duon neu lus yn flasus iawn, a menyn toddi drosto. A phan nad oedd mwyar a llus ar gael, roedd pwddin afal neu bwddin cyrains yr un mor dderbyniol. 'Doedd dim sôn am galoriau yr oes honno, dim ond bwyta'r hyn y gallai'r teulu ei fforddio.'

Gyda diolch i Mrs Williams am yr atgofion. Oes rhywrai â chof am fwydydd gwahanol?

A beth tybed oedd y bwydydd tun mwyaf cyffredin i'w gwerthu yn siop y pentref ers talwm? I'r rhai sydd â diddordeb arbennig mewn hanes bwydydd, mae'r llyfr *Pickled, Potted and Canned: the story of food preserving* yn un darllenadwy.

O Landdeiniolen i Wisconsin

Soniais y mis diwethaf fel yr aeth teuluoedd o Landdeiniolen i Wisconsin, a'u cysylltiadau a'r sefydliadau eglwysig cynnar yn y dalaith honno. Un o'r rheini oedd Blaen y Cae a Proscairon. Enw o'r iaith Roeg yw Proscairon sy'n golygu 'dros dro' neu 'dros amser'. Bu cryn ddadlau ynglŷn â phwy fu'n gyfrifol am roi enw o'r fath ar dyddyn bychan yn Landdeiniolen yn y lle cyntaf. Safai'r bwthyn lle'r adeiladwyd Rheithordy Llandinorwig wedi hynny.

Mae traddodiad teuluol yn cofnodi fod William Hughes, gŵr ifanc o Landdeiniolen, wedi mynd at hen berson Llanrug, sef y Parch Peter Bailey Williams, i gael enw ar ei dŷ newydd. Ni fwriadai aros ynddo yn hir iawn. Rhoddodd yr hen berson ddau air Groeg iddo - pros kairon, sef 'dros amser'.

Roedd William Hughes yn briod â Mary, merch hynaf Hugh a Mary Roberts (Tŷ Capel Ysgoldy, ond cyn hynny, o Dan y Buarth, Cefn y Waun). Robert William Hughes oedd plentyn ieuengaf William a Mary, Proscairon. Fe'i ganed ddiwedd Rhagfyr 1841. O fewn cwta ddwy flynedd lladdwyd ei dad yn Chwarel Dinorwig ac, o fewn blwyddyn arall, ymfudodd y fam a'i phedwar plentyn i'r America. Yno, ailbriododd Mary Hughes â'r Parch John D. Williams. Sefydlodd y ddau mewn ffermdy a alwyd Proscairon, a dyna'r enw a ddewiswyd ar yr ardal ac ar y capel cyntaf i'w adeiladu yno (gan John D. Williams, a oedd

yn saer coed wrth ei alwedigaeth).

Tua deugain mlynedd yn ddiweddarach, honnwyd mai'r Dr Owen Thomas, Lerpwl a roes yr enw Proscairon ar dŷ William Hughes yn Llanddeiniolen. Roedd Owen Thomas yn pregethu yn Ninorwig, rywbryd ar ddiwedd 1834 neu ddechrau 1835, ac 'amser' yn destun pregeth ganddo. Cerddai gŵr ifanc gydag ef i Ddinorwig, a soniodd am dŷ yn cael ei adeiladu. Ni allai gofio beth oedd y geiriau a ddefnyddiodd Owen Thomas am 'amser' ar ei bregeth, a chafodd yr ateb 'pros kairon', sef 'dros amser'.

'Dyna enw da iawn ar dŷ,' meddai. Y gŵr ifanc hwnnw oedd William Hughes. Ddeng mlynedd yn ddiweddarach, pan oedd Hugh a Mary Roberts (rhieni Mary a rhieni yng nghyfraith William Hughes) ym Mangor, ar fin ymfudo i'r America, cyfarfu'r Dr Owen Thomas a hwy.

'Cofiwch enw tŷ eich mab yng nghyfraith, William Hughes - Proscairon,' meddai. A dyna'r eglurhad pam y rhoddwyd yr enw Proscairon yn enw ar eu cartref newydd yn Wisconsin. Mae'n debyg na chaiff y ddadl ei datrys bellach.

Gair byr am Robert William, mab William a Mary Hughes, Proscairon, Llanddeiniolen. Ar ôl ymsefydlu yn Wisconsin, treuliodd flynyddoedd yn ffermio gartref cyn mynychu'r Brifysgol a graddio'n athro. Yna, aeth i'r weinidogaeth, gan ddechrau fel gweinidog gyda'r Methodistiaid, ac yn ddiweddarach drosglwyddo i'r Annibynwyr. Bu hefyd yn oruchwyliwr y Feibl Gymdeithas yn Iowa, ac yn gynrychiolydd i Gymanfa Ysgolion Sul y Byd yn Llundain yn 1889. Treuliodd beth amser yng Nghymru yn



Dathliadau hanner can mlynedd Capel Proscairon, Wisconsin. Mae'n syndod meddwl fod hynafiaid llawer o'r rhai sydd yn y llun yn tarddu o Landdeiniolen.

ystod y flwyddyn honno. Roedd ei ferch, Lilian yn ddarlithwraig mewn cerddoriaeth yng Ngholeg Pennsylvania. Bu farw yn Lime Springs, Iowa, ddiwedd Ionawr 1912.

Y mis nesaf cawn hanes sioe anifeiliaid a chynnyrch tŷ a gardd a gynhaliwyd yng Nghastell Bryn Bras, Llanrug, ganrif yn ôl. Derbyniwyd hefyd amryw o alwadau ffôn eraill ynglŷn â gwahanol

agweddau o hanes yr ardal, ond rhaid cadw'r rheini tan y tro nesaf. Cofiwch gysylltu â Dafydd Whiteside Thomas, Bron y Nant, Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515).

GWASANAETH LLEOL AR GYFER
PARTIÖN • PRIODASAU
PEN-BLWYDD
BEDYDD • DAWNS • GWYLIAU

RHOSTIO MOCHYN AR GYFER POB ACHLYSUR

* Cig o ffermydd lleol * Partiön
rhwng 40 a 400!

* Gyda saws afal a stwffin mewn
rholiau

* Efo salad hefyd os dymunwch

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â

JOHN BRYNAFON

LLANRUG

Y DYD CIG ar 675190 / 673188

Ty'n Llan Nant Peris

Cinio
dydd Sul
a
Byrbrydau



Bwydydd
Cymreig

Jim ac Anne Gumberton (01286) 870 284
Croeso cynnes bob amser

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walliau a lloriau

Qwaith bach neu fawr
Qwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805



Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG


41A STRYD FAWR, LLANBERIS
Ffôn: (01286) 872501

Briwsion Byd Natur

Dafydd Guto

Cystadleuaeth Croeso'r Haf

(agored i bob oedran)



Chwilota am 11 enw ym Myd Natur. Tair gwobr! Ewch ati! Cyfle gwyh! Rhwch gynnig arni heddiw 'ma!

***Mac Ch, Dd, Ff, Ll yn cyfrif fel un llythren.

Ar Draws

1. Llwyn hefo canghennau unionsyth ac iddo ddail bychain a blodau melynion. Disgrifwyd Olwen, yn y chwedl hynaf sydd gennym yn y Gymraeg, sef *Culhwch ac Olwen*, fod ei gwallt yn felynach na blodau'r planhigyn hwn.
2. Planhigyn hefo blodau lliw llachar melyn, a smotiau oren yn y canol. Blodeua'n eithaf cynnar yn nhymor y gwanwyn. Enw arall arno yw sawdl, teth neu droed y fuwch. Mae ail enw'r blodyn yn enw cymcriad cysgredig o'r Testament Newydd ac i'w osod yn 5 i lawr.
3. Eurbinc a Theiliwr Llundain yw'r enwau eraill arno. Aderyn bychan lliwgar.
4. Un hefo cynffon hir flewog ac yn dra chwim tra'n dringo coed.
5. Aderyn ysglyfactus ac un o dylwyth y cudyll.
6. Enw arall am y creadur hwn ydyw *madyn*, ond gall olygu hefyd un o'r cytserau gogleddol, neu fwndel o goedwedi ei glymu yn ei ganol neu'n ei ddeupen

I lawr

2. 0 rywogaeth *Erinaceus* ac un sy'n byw ar bryfed ac yn cysgu yn nhymor y gaeaf.
3. Creadur o'r un tenlu a'r carlwm, gwenci, a'r fronwen. Wedi prinhau oherwydd ei hela gan ddyn.
5. Gw. 1 uchod.
9. Lluosog onnen.
10. Gall y planhigyn hwn dyfu ar foncyff coeden, a ph.0an dyf ar y llawr fe'i adwaenir wrth yr enwau *llysiau'r esgryn*, *gerwyn*, *bedog las*. Chwilir yma am yr hen enw yn y Gymraeg amdano.
11. A'r cwestiwn olaf, sef beth yw'r enw cyfarwydd yn y Gymraeg am yr hyn a gafwyd fel ateb yn 10 uchod. Nodwch y gair ar ddarn o bapur. Cofiwch gynnwys eich enw a'ch cyfeiriad. Danfonwch yr ateb erbyn 10 Medi, '03 at Dafydd Guto, Neuadd Glasgoed, Llanrug LL55 3BB. Yr atebion cywir ar gael yn rhifyn nesaf Eco'r Wyddfa. Tair gwobr sydd 'na i gyd, sef (1) pecyn o lyfrau Cymraeg Byd Natur; (2) lliun lliw o fyd Natur; (3) stampiau Adar o wledydd tramor.

GWERSI PIANO

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01249) 353746

GWYN JONES


FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

W. G. Roberts (Wil Korea)
676741



BLINYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

FFENESTRI

DRYSAU

DRYSAU PATIO

PORCHES

BYRDDAU FFASIA

CLADIO

CONSERFATERIS

Dylan Griffith

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal yr ECO ac
ymhellach i ffwrdd

Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD



CERBYDAU CLASUROL YR WYDDFA

Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd *Rolls Royce*
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

Cefnogwch ein hysbysebwy

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846


EMYR JONES

PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI



Cynnal boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon, Llanrug
GAERNARFON 673513
Ffôn Symudol: 07774 496616



GWYNANT PIERCE

Cynrychion Coed:
Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon
LLANRUG

Ffôn: (01286) 650349
(0589) 899901

Peidiwch a gori ar stori
anfonwch hi i'r ECO

DEINIOLLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

DIOLCH. Dymuna Wendy a Dylan, Y Felinheli ddiolch o galon i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr anrhegion a'r cardiau a dderbyniwyd ar achlysur genedigaeth eu mab bach, Osian Hari ar 30 Ebrill.

DYMUNA Mona, Len, Lynda, Glenda, Geraint a'r teulu ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniwyd yn eu profedigaeth o golli gŵr, tad, taid a brawd annwyl, sef Owen Parry. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau ac hefyd am y rhoddion hael o £1000 tuag at glefyd y crudcymalau a Chapel Ebeneser Deiniolen. Diolch i'r Parch John Pritchard am y gwasanaeth ac i Gwyn Parri am ei deyrnged, a dalwyd yn y tŷ. Diolch i Mr Gwynfor Jones o E.W. Pritchard, Llanberis am y trefniadau gofalus ac urddasol.

DIOLCH. Dymuna Glenys ddiolch o galon am bob cydymdeimlad yn ystod y profedigaeth o golli Tydfil Jones, ffrind agos a hoffus. Diolch am y cardiau, galwadau ffôn ac am y rhoddion tuag at Ward Ogwen a Chapel Cefn y Waun. Diolch yn fawr iawn i bawb.

DYMUNA Bethan a Macari, 66 Pentre Helen ddiolch o waelod calon i'r teulu, perthnasau a ffrindiau am yr holl arian ac anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth Elli Haf.

CASGLWYD £26.14 yn Hafod Olau a Bwthyn at Gronfa Cancr Marie Curie. Diolch yn fawr i bawb.

CYDYMDEIMLAD. Brawychwyd yr ardal gyfan fore Mercher, 16 Gorffennaf pan glywyd am farwolaeth Mair Rees Jones, Tan-y-caerau, mewn damwain erchyll yng Nghaernarfon.

Roedd Mair yn uchel ei pharch yn yr ardal a bydd colled fawr ar ei hôl. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i'w mam, Mrs Mary C. Jones, ac i'r holl deulu yn eu colled, hefyd i aelodau Capel Libanus lle bydd ei lle yn wag iawn.

CYMDEITHAS CYFEILLION EGLWYS CRIST. Mae trefniadau ar y gweill gogyfer â thymor newydd y Gymdeithas. Bydd cyfarfod cyntaf eleni ar nos Lun, 1 Medi am 7.00 o'r gloch yn yr Eglwys. Y siaradwrt gwadd fydd Mr Maldwyn Thomas o Benrhosgarnedd. Bydd croeso i'r aelodau ac i aelodau newydd.

DIOLCH. Dymuna Mari Wyn Ellis, 3 Hafod Oleu ddiolch i'w teulu, ffrindiau, cymdogion, cydweithwyr ac athrawon Ysgol Gwaun Gynfi am bob caredigrwydd a dderbyniwyd tra'n cael llawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

LLONGYFARCHIADAU i Lynne, 10 Rhes Cynfi ar ennill gradd B.Ed. 2.2 gydag anrhydedd ym Mhrifysgol Cymru Bangor oddi wrth Dad, Mam, Jonathan a Louise.

DYMUNA Ken, a Margaret ei chwaer, ynghyd â'u teuluoedd, ddiolch am yr holl garedigrwydd a ddangoswyd iddynt ar ôl colli eu hannwyl dad, Tydfil Jones, 20 Rhydfadog, yn ddiweddar. Bu'n gysur mawr i'r teulu dderbyn cydymdeimlad brodorion y fro ac eraill a gweld a chlywed cymaint o barch oedd at eu tad yng ngolwg ei ffrindiau niferus. Diolch hefyd am eich haelioni. Bydd yr arian a

gasglwyd yn mynd tuag at waith da Ward Ogwen yn Ysbyty Gwynedd a Chapel Cefn y Waun. Ein diolchiadau cywiraf.

CYMUNED GWAUN GYNFI. Ddiwedd mis Mai daeth llu o bobl i gyfarfod o'r mudiad Cymuned yn Nhŷ Elidir. Cafwyd noson ddiffr iawn a oedd yn gymysg o'r dwys a'r digri, a phenderfynwyd ar ei diwedd sefydlu cangen o Cymuned yn y pentref.

Enw'r gangen newydd yw Cangen Cymuned Gwaun Gynfi. Mae'r aelodau wedi cyfarfod yn barod ac wedi trefnu nifer o weithgareddau yn yr ardal. Cafwyd ymateb ffatriol iawn gan drigolion Dinoriwg pan gynigiwyd gwersi Cymraeg yn rhad ac am ddim gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr yn ddiweddar. Sara Wood, Dinoriwg

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad cywir i deuluoedd a gollodd anwyliad yn ystod yr haf. Cydymdeimlwn â Mrs Margaret Thomas, Pistyll a'i meibion, Michael a David, yn eu profedigaeth sydyn o golli Mr Hughie Gordon Thomas.

Cydymdeimlwn â theulu'r ddiweddar Mrs Nellie Hughes, 3 Tai Gwyrfa i a gollodd fam, nain a chwaer annwyl.

Hefyd â Mrs M.C. Thomas, Tan-y-caerau a gollodd ei merch, Miss Mair Rees Jones, mewn damwain erchyll.

Hefyd â Mrs Mona Parry, 13 Hafod Oleu a'r plant Len, Lynda, Glenda a Geraint a gollodd ŵr a thad annwyl, Mr Owie Parry, wedi gwaeledd hir.

Hefyd â Dylan a Kathie Jones, Maes y dref a gollodd faban bach, Finola Rachel, chwaer i Ellis. Rydym i gyd yn cydymdeimlo â chwi yn eich profedigaethau.

Er Cof am Mair Rees Jones, Tan-y-caerau, Clwt-y-bont.

Merch y Fro

Ar aelwyd Tan y Caerau
Mae colled ar dy ôl,
A'r gwacter sydd yn llethu
Wrth feddwl na ddoi'n ôl.

Ond er y golled erchyll
A ddaeth i ran dy fam,
Bydd braich yr lŵr yn gryfder
I'w chynnal rhag cael cam.

Gadewaist ôl dy lwybr
Ar lethrau serth y fro,
Ond Duw yn unig ŵyr dy hynt
Wrth droedio'i lwybrau O.

Daeth tyfra fawr i'r Capel,
Ar bwys dy gartref clyd,
I ddweud y ffarwel olaf
Cyn iti fynd o'r byd.

Cyn hir, daw haul i'r brynau
I wenu arnom ni,
A chofio wnawn am ferch y fro
A'r wên a roddai hi.

Daw amser i ffarwelio
I ninnau bob yr un,
A chawn dy gwmni eto
Ar aelwyd Duw ei hun.

Ac yno, cawn gyd-gerdded
Y llwybrau yn y nen,
A throedio gyda'r lŵr a wnawn
A'i foli Efr yn ben.

Fel ffrind, fe hoffwn innau
Gael diolch am y tro,
Am gael dy gwmni siriol
Tra'n troedio llwybrau'r fro.

R.I.T.



Tynnwyd y lluniau o Gwyn a'i ŵyr (Joshua sy'n flwydd a hanner) a'i wyres (Megan sy'n dair oed) ar ddiwrnod cenedlaethol Canada.

CYMRU ALLTUD. Mae Gwyn ac Eleri Morris o Fictoria Terrace, Deiniolen gynt, yn byw yn Edmonton, Alberta, Canada.



DYMUNA Mary Catherine Jones, ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniodd yn ei phrofedigaeth o golli merch annwyl iawn, Mair Rees. Diolch am y llythyrau, cardiau, galwadau ffôn ac ymweliadau a hefyd am y rhoddion hael o £2,000 tuag at Adran Ddamweiniâu Ysbyty Gwynedd.

Diolch i'r Parchedigion Ifor Lloyd Williams, Olaf Davies, Idwal W. Jones, John Treharne, John Pritchard a'r cyn-Brifathro John R. Rowlands am eu gwasanaeth ac i Mr Gareth Hughes Jones (cefnwr) wrth yr organ. Diolch i Meirion Jones, Minafon am ei garedigrwydd mawr ac i Gwynfor Jones o E. W. Pritchard am y trefniadau trylwyr, gofalus ac urddasol.

Y SEINDORF. Dydd Sul, 3 Awst, gwelwyd ffrwyth misoedd o waith caled yn cael ei wobrwyo pan enillodd Seindorf Arian Deiniolen gystadleuaeth Bandiau Pres Dosbarth 2 yn Eisteddfod Genedlaethol cymru, Meifod.

Ar ddiwedd 2002 gwnaed penderfyniad pwysig gan bwyllgor y Band i ddyrchafu mwy o aelodau'r Seindorf Ieuenctid i ymuno â'r 'band mawr'. Gan fod yr aelodau ifanc hyn yn ddibrofiad, teimlodd y pwyllgor fod cyfnod o ailadeiladu o flaen y band – ond cyfnod oedd yn siŵr o brofi i fod yn bleser ac yn galonogol iawn wrth weld y rhai ifanc yn tyfu yn eu gallu.

Cystadleuaeth gyntaf y Band yn 2003 oedd Pencampwriaeth Cymru yn Abertawe, ble gosodwyd y Band yn bumed allan o 9 band drwy Gymru – canlyniad calonogol dros ben wrth gysidro fod pum aelod ifanc yn chwarae gyda'r band am y tro cyntaf yn gyhoeddus, gydag oed cyfartalog y band yn y 20au.

Yna cafwyd noson lwyddiannus dros ben pan drefnwyd cyngerdd gan y Band i godi arian tuag at Ward Alaw, Ysbyty Gwynedd. Codwyd cyfanswm o £3,276 at yr elusen arbennig yma.

Yng nghystadleuaeth nesaf y Band yn y Rhyl gosodwyd hwy yn drydydd – yn erbyn bandiau cryf iawn – canlyniad oedd yn dangos fod y band yn aeddfedu. Daeth hyn ddiwrnod ar ôl i aelodau'r Band gael eu hyfforddi gan unawdwyr band pres gorau Ewrop – Band Pres Cymdeithas Adeiladu Swydd Efrog! Braf iawn oedd cael dau gyn-aelod i'r band, sydd wedi mynd ymlaen i fod yn aelodau blaengar o'r band hwn – Iwan Williams a Gavin Saynor, yn dod yn ôl i ddysgu aelodau band eu pentref!

Yna daeth yn amser yr Eisteddfod! Roedd hon yn gystadleuaeth gref iawn gyda 5 o fandiau gorau'r adran yng Nghymru yn cystadlu yn erbyn y Band. Roedd y gynulleidfa'n amlwg wedi mwynhau'r perfformiad – a dyna oedd teimlad y beirniad hefyd mae'n amlwg – pan osodwyd y band yn gyntaf, gyda Band Llanrug yn ail a Band Llansawel yn drydydd.

Roedd hwn yn ganlyniad gwych i'r band – ac yn profi fod y penderfyniad o ddefnyddio'r ieuenctid yn un cywir! Roedd yn bleser gweld fod 18 allan o'r 27 ar y llwyfan o dan 30 oed – gyda 75% o'r band yn dod o bentref Deiniolen.

Mae'r band yn awyddus i barhau gyda'r gwaith da yma ac yn edrych ymlaen at weddiill y flwyddyn.

Egwyddorion ar Gyfeiliorn

Trwy lyfu a seboni
Manteision ddaw i'r ran,
Ond cofia cyn gwirioni
Fod eraill yn cael cam.
A dyna ystyr undeb,
Rhoi stamp ar enaid dyn,
Cael undod dros gytundeb
A gwarchod rhag y drin.

Mae golud yn rheoli
Meddylfryd ambell un,
Er nad yw'n sylweddoli,
Bydd yma wrtho'i hun.
Mor ddiflas ei enillion
O edrych dros y ffin,
A chofio hen gymdogion
A syrthiodd yn y drin.

Mor dist yw gweld arwyddion
Y chwalfa yma thraw,
Sylfeini egwyddorion
Ar werth, ond ysgwyd llaw.
Y chwi o dras estronol,
Rheoli yw y nod
A rhwygo yn fwriadol
Cymdeithas glos fu'n bod.

Beiddgarwch disytyru,
Yr ysgol brofiad ddurd,
Cenhedloedd lu yn llwgu
A thlodi dros y byd.
Arweinwyr amaethyddiaeth
Mor ffôl yw'r rhain yn wir.
Yswiriant yw'r flaenoriaeth,
Maes chwarae fydd y tir.

Mae dyddiau y cwestiynu
Heb fod ymhell i ffwrdd,
Pa le mae cynnyrch Cymru?
Paham mor llwm y bwrdd?
Ond peidiwn gor-bryderu,
Daw newid byd drachefn,
Bydd galw am gynhyrchu,
Bydd rhaid ail-arddel trefn.

DAFYDD MORRIS, CEFN COCH
13 AWST, 2003

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

CLWB 300. Enillwyr mis Mehefin: £40: Mr Peter Greasley, 7 Pant Waen; £25: Mrs Pearl Williams, Parc; £10: Mrs Rhian Ellis, Ty'n Lliadiart.

Enillwyr mis Gorffennaf:

£40: Mr G.O. Jones, 2 Penclip; £25: Ms Sali Davies, Tŷ Capel Croes y Waun; £10: Mr J. Cotton, 12 Tŷ Hen.

BEDYDD. Mewn gwasanaeth arbennig yn nghapel Croes y waun a'r Parch Dafydd Hughes yn gweinyddu, bedyddiwyd Iwan Llwyd, mab bychan Garry a Nia Griffith, Dolydd, Stad Tŷ Hen.

DYWEDDIO. Dymunwn longyfarch Tina Parry, Ael y Bryn ar ei dyweddiad â Carwyn Humphreys o Lanrug.

PLAID CYMRU. Mewn cyfarfod blynyddol o'r gangen yn ddiweddar, ail-etholwyd y canlynol: Cadeirydd: Norman Williams; Trysorydd: John Gwynedd Jones; Ysgrifennydd: Rob Jones; Ysgrifennydd Aelodaeth: Beryl Jones.

Dewiswyd John Gwynedd Jones fel darpar ymgeisydd Plaid Cymru i'r etholiad llywodraeth leol ym mis Mai 2004.

CROESO. Dymunwn estyn croeso i'r rhai sydd wedi ymgartrefu yma yn y Waun yn ystod yr wythnosau diwethaf. Gobeithiwn yn fawr y byddwch yn hapus yma.

PRIODASAU. Daeth cyfnod prysur o baratoi a threfnu i ben gyda chwe chwpwl ifanc a chysylltiad â'r pentref wedi priodi yn ystod yr haf.

Priodwyd Delyth Mai o Hafod y Rhug a Mark Parry o Gaernarfon yng Ngwesty Meifod. Maent wedi ymgartrefu yn Llanrug.

Yng Ngwesty Meifod hefyd y priododd Gwyneth Ellis, Ty'n Lliadiart â John Kremers o'r Iseldiroedd a byddant yn dychwelyd i'r Iseldiroedd i fyw. Yng Nghaernarfon y bydd Gwyndaf Williams, Tros y Gors yn byw gyda'i briod Karen, o Lerpwl.

Yng Ngwesty Meifod y priodwyd Susan Helen Murray a Neil Broughton.

Yn Eglwys Betws Garmon y priodwyd Matt a Claire Tuck sydd wedi ymgartrefu yn Bron Gwyrfa (hen enw'r Adfa).

Priodwyd Diane ac Iwan, Dolwyn, Teras Glyn Afon.

Dymunwn bob hapusrwydd i'r holl barau ifanc yn eu bywyd priodasol.

PEN-BLWYDD PRIODAS.

Llongyfarchiadau mawr i Gwilym John a Sheila Roberts, Llwyn Celyn ar ddathlu eu priodas aur yn ddiweddar.

GENEDIGAETH.

Llongyfarchiadau i John a Rhian Ellis, Ty'n Lliadiart ar enedigaeth eu wyr bach cyntaf. Maent yn daid a nain balch iawn i Gruffydd Iwan, mab bychan Anwen ac Iwan.

Llongyfarchiadau i deulu Ty'n Weirglodd ar enedigaeth eu mab bychan, Noah David.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL. Dymunwn longyfarch pawb o'r pentref fu'n cystadlu ac a ddaeth yn llwyddiannus yn yr Eisteddfod Genedlaethol eleni.

Daeth tîm beirdd y Waun yn fuddugol yng ngornest Talwrn y

Beirdd ar Sadwrn cyntaf yr Eisteddfod.

Llwyddodd Iola Ynyr i ddod i'r brig mewn dwy gystadleuaeth yn yr adran ddrama, un ar gyfer drama deledu a'r llall oedd sgript ar gyfer un actor neu actores.

Daeth Ffion Haf Llewelyn yn ail yn y gystadleuaeth adran offeryn chwyth rhwng 12 ac 16 oed.

Roedd rhai wynebau cyfarwydd i ni ymysg aelodau Côr Meibion Caernarfon, a ddaeth yn fuddugol yn eu hadran.

Wedi iddo fod yn ail yn Eisteddfod Dinbych ddwy flynedd yn ôl yn y gystadleuaeth 'Baled Wreiddiol', daeth Alun Mabon, Stad Bro Waun yn gyntaf eleni a derbyniodd Wobr Goffa Elfed Lewis.

DATHLU PEN-BLWYDD.

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Elin Evans, Arfryn a Rhys Huws, Argoed ar gyrraedd eu pen-blwydd yn 21 oed. Dymunwn bob hapusrwydd i chi i'r dyfodol.

Bydd amryw o'n plant a'n pobl ifanc yn cychwyn gyrfa mewn ysgol, coleg a swydd yn ystod yr wythnosau nesaf. Dymunwn yn dda i bob un ohonynt.

ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mrs Wendy Jones, Pen Clip a Richard Charge, Llifon adref o'r ysbty wedi i'r ddau dderbyn llawdriniaeth.

Gorfu i Siôn Jones, Penrhos dreulio cyfnod yn yr ysbty ac hefyd daeth Miss Kate Roberts, Stad Tref Eilian, adref wedi iddi dreulio cyfnod yn Ysbyty Eryri.

Gobeithio'n fawr fod y tywydd braf yn codi eich calon a'ch bod yn gwella.

Tra ar ei wyliau yn Sbaen gorfu i Cai Bach, Cartrefle fynd i'r ysbty ond mae adref ac allan yn chwarae erbyn hyn.

CYDYMDEIMLWN â Mr a Mrs Robin Roberts, 9 Bryn Golau yn eu profedigaeth o golli mab yng nghyfraith (Gŵr Beryl) yn frwydus o sydyn.

Anfonwn ein cydymdeimlad at Catherine Huws, Dolafon yn ei phrofedigaeth o golli ei chwaer.

Yn dawel bu farw Catherine Williams, 2 Tref Eilian. Cydymdeimlwn â'i hunig fab, Ronnie, yn ei brofedigaeth.

Cydymdeimlwn ac Eurwyn Williams a'r teulu, Parc, yn eu profedigaeth o golli ei frawd, Eirion, a oedd yn byw yng Nghaernarfon.

DIOLCH. Dymuna Eurwyn, Pearl, David a Sara, Parc, ddiolch i'r teulu a'u ffrindiau am bob arwydd o gydymdeimlad a dderbyniasant yn eu profedigaeth o golli brawd, brawd yng nghyfraith ac ewythr. Diolch hefyd am y cardiau a'r galwadau ffôn a dderbyniwyd.

DIOLCH. Bu Sian Williams, Groeslon, Penygroes (merch Gwenno Syrjiri) ar brofiad gwaith yn ysgol Waunfawr a mwynhaodd ei hun yn fawr. Dymuna ddiolch i Miss Dafydd a'r staff am eu croeso a'r amser arbennig a dreuliodd yno.

DIOLCH. Dymuna Mr Wilf Jones, Treflys ddiolch (ar ein rhan ni i gyd, rwy'n siŵr) i Roy Jones, Cynefin, am roi o'i amser i ofalu am y

BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

EISTEDDFOD. Mae'r Pwyllgor yn trefnu Noson Goffi yn y Neuadd Goffa gyda stondinau a raffl ar nos Wener, 5 Medi, i gychwyn am 6.30. Bydd cyfle i dderbyn y Rhestr Testunau a rhoi enwau ar gyfer yr amrywiol bartïon. Mae tocynnau ar werth gan aelodau'r Pwyllgor am 50c.

LLWYDDIANT CERDDOROL. Llongyfarchiadau i'r ddau canlynol ar lwyddo mewn arholiadau yr Ysgolion Brenhinol, a gynhaliwyd ym Mangor yn ddiweddar: Gethin Wyn Griffiths, Dolserau, Gradd 3 Piano gyda Rhagoriaeth a Siôn Gareth Owen, Tŷr Ysgol, Gradd 5 Cornet gyda Theilyngdod.

CYDYMDEIMLO.

Daeth profedigaeth i ran tri theulu o'r pentre dros yr haf. Yn ystod y gwyliau, yn frwydus o sydyn, bu farw Mr Richard Hughes, 42 Bro Rhos. Hefyd bu farw Craig Pugh, Tan y Buarth a Mr William W. Davies, St Tysilio (Saron gynt).

Estynnwn pob cydymdeimlad â'r tri theulu yn eu profedigaethau. LLONGYFARCHIADAU i Gerallt Hughes, Crawia ar ei lwyddiant yn ei gwrs Diploma yn y Gyfraith yn y Coleg yng Nghaer. Dymuniadau gorau iddo hefyd yn ei swydd newydd fel cyfreithiwr gyda chwmni yng Nghaer.

CLWB 100 CLWB PÊL-DROED.

Enillwyr Mehefin oedd: £100: Mansell Williams; £50: Iwan Jones; £25: Hugh Morgan; £25: Aled Williams; £10: H. P. Hughes; H. Owen; Sion Williams; Tracey Jones; Emllyn Thomas; Billy Owen; Goronwy Jones; Gwenan Elis. Yr oll ohonynt o Fethel.

Enillwyr Gorffennaf oedd:

£100: Tecwyn Hughes, Bethel; £50: Dilwyn Hughes, Seion; £25: Carys Williams, Bethel; £25: Geraint Parry, Bethel; £10: Alwynne Jones, Bethel; D. Chubb, Bethel; Arwel Jones, Bethel; Pat Griffiths, Bangor; Alwen Williams, Caernarfon; Sion Stokes, Llanrug; J. Newell, Caernarfon; Maldwyn Hughes, Bethel; J. R. Evans, Bethel; Andrew Williams, Caernarfon.

I ymuno neu am ragor o wybodaeth cysylltwch â Mr

gofgolofn a'r llain o dir o'i hamgylch. Mae bob amser yn ddaclus a'r blodau yn dlws.

DIOLCH. Yn ystod y gwasanaeth fore Sul yng Nghapel Bethel, diolchodd y Parch Gwynfor Williams i Gôr y Waun am y pleser a'r mwynhad yr oedd ef a'i wraig wedi ei gael yn gwrandao arnynt yn canu yn Eglwys y Santes Fair yng Nghaernarfon yn ddiweddar.

GWYLIAU. Braf yw gweld plant y pentref yn dod adref yn ystod gwyliau'r haf ac, yn eu mysg eleni, yr oedd Iorwerth (Heli) a'i deulu o Ynysoedd y Cayman. Dod i weld mam ac i ddathlu pen-blwydd arbennig gyda Neville, Bryn Gwylan, medda fo.

YMWELIAD. Yn ystod ei daith yng Ngogledd Cymru galwodd Tywysog Cymru yn nhafarn y pentref cyn mynd ar y trên o'r Waun i Rhyd-ddu. Bu'n sgwrsio gyda'r dorf a oedd wedi ymgynnull yno.

Tecwyn Hughes, 4 Y Ddôl, Bethel, Caernarfon, Gwynedd LL55 1RE. (Ffôn: 01248 671469).

CLWB 200 Y NEUADD.

Enillwyr mis Mai oedd:

£50: (95) Ann Lloyd Jones, 8 Penrhos, Bethel; £25: (159) Margaret O. Davies, 10 Tan y Cae, Bethel; £10: (75) Pat Owen, Cefn Cynrig, Bethel.

Enillwyr Mehefin oedd:

£50: (142) Eryl Roberts, Bryn Rhedyn, Bethel; £25: (115) Ann Williams, Ty'n Rardd, Bethel; £10: (17) Pat Hughes, 11 Ystad Eryri, Bethel.

Enillwyr mis Gorffennaf oedd:

£50: (95) Ann Lloyd Jones, 8 Penrhos, Bethel; £25: (131) Elwyn Hughes, Bryn Ogwen, Bethel; £10: (23) Amanda Jones, 4 Ystad Eryri, Bethel.

Bydd y Clwb 200 yn dod i ben ddiwedd Gorffennaf, pan fyddwn yn casglu arian am y flwyddyn sydd i ddod. Erfynnir am fwy o aelodau i ymuno â'r Clwb. Os oes gennych ddiddordeb, cysylltwch â'r Ysgrifenyddes, Mrs Nan Owen, Berwyn (01248 670763).

Mae'r Neuadd Goffa wir angen mwy o gefnogaeth gan drigolion Bethel, ac os na chawn hynny ni fydd y Neuadd yn gallu bodoli i'r dyfodol.

CYMORTH CRISTNOGOL.

Casglwyd £241.80 at Gymorth Cristnogol eleni. Diolch i eglwysi Bethel, Cysegr, Saron a Seion am eu cefnogaeth i'r casgliad ac i bawb a gyfrannodd at yr achos eleni.

LLWYDDIANT EISTEDDFODOL

Bu nifer o'r pentrefwyr yn cystadlu yn yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod eleni a daeth llwyddiant i ran nifer ohonynt.

Llongyfarchiadau i bob un.

LLWYDDIANT. Yn rhifyn Medi byddwn yn llongyfarch plant y pentref ar eu llwyddiant yn eu arholiadau ac yn dymuno'n dda iddynt wrth fynd ymlaen i addysg bellach ac i waith. Nid yw eleni yn wahanol. Mae'r plant unwaith eto wedi cael canlyniadau ardderchog.

Dymunwn y gorau i'r rhai fydd yn cychwyn yn yr Ysgol Feithrin, yn yr ysgol Gynradd, y rhai fydd yn cychwyn yn Ysgol Brynrefail a'r rhai sydd yn mynd ymlaen i goleg ac i waith.

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
London House
LLANRUG

Ffôn: (01286) 673574
PEN CIGYDD Y FRO

Yrŵyn lleol mwyaf blasus

Selsig cartref

Cigoedd parod i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist

MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!

BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

PWYLLGOR CYMUNEDOL.

Cyfarfu'r Pwyllgor yn y Ffestri nos Iau, 10 Gorffennaf dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones. Hysbyswyd fod y cais am nawdd ariannol ar gyfer yr Astudiaeth Dichonoldeb o du Cronfa Galluogi Gwynedd a'r Awdurdod Datblygu Cymreig wedi ei sicrhau. Croesawyd Mr Alun Roberts.

Cyfarwyddwr Cynorthwyol Cynllunio a Datblygu Economaidd o Gyngor Gwynedd i'r cyfarfod. Fe'i gwahoddwyd i'r cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth am yr adeilad newydd ar safle yr Hen Ysgol Sir. Nis adroddwyd dim yn ôl yn swyddogol am y safle i ardalywyr Brynrefail ers y cyfarfod cyhoeddus a gynhaliwyd ar 23 Medi 1999 nac i'r pwyllgor a etholwyd i'w cynrychioli ers 16 Mai 2000, ar wahân i fodel o'r adeilad a arddangoswyd yn y pentref yn ystod haf/hydrdd 2000.

Cafwyd adroddiad manwl ganddo o'r hyn a fu'n mynd ymlaen ers tair blynedd a fu'n sefyllfa i'r dyfodol o safbwynt y gymuned. Diolchwyd iddo am ei adroddiad gan y Cynghorydd Pat Larsen a Mr Gwyn Hefin Jones.

Yn dilyn mynegwyd teimladau cryf gan yr aelodau oherwydd y modd gweithredu yn ystod y cyfnod dan sylw.

Nos Fawrth, 29 Gorffennaf cafwyd cyfarfyddiad arall o'r Pwyllgor dan lywyddiaeth Mr Gwyn Hefin Jones gyda Mr Alun Roberts yn bresennol. Yn wyneb y trafodaethau presennol ynglŷn â'r Ganolfan Grefftiau gohiriwyd symud ymlaen gyda'r nawdd ariannol a dderbyniwyd. Hysbyswyd mai Cwmni Caban Cyf. fydd yn gyfrifol am y Ganolfan Grefftiau a threfnwyd i'r aelodau ymweld â'r safle ac i gynrychiolaeth o'r aelodau gyfarfod aelod o'r Cwmni ddydd Iau, 14 Awst. Cyfarfu'r Pwyllgor llawn nos Iau 14 Awst yn y Ffestri. Yn ystod y cyfarfod cafwyd adroddiad gan yr aelodau hynny a ymwelodd â'r Ganolfan Grefftiau ynghyd ag adroddiad llawn gan Mr Geraint George a gyfarfu a Mr Tim Silvester. Cafwyd eglurhad ar nodd Cwmni Caban Cyf. ac ymateb i rai gofynion perthnasol i'r gymuned. Trefnwyd i gael cyfarfod arall gyda mwy o gynrychiolaeth a chael mwy o fanylion.

Etholwyd Mr John McBryde yn ysgrifennydd cofnodion a diolchwyd i'r cyn-ysgrifennydd, Mrs Lowri Roberts Williams, am ei gwaith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Bydd y pwyllgor nesaf yn cyfarfod yn y Ffestri nos Fawrth, Medi 16eg am 6.30 o'r gloch.

SEFYDLIAD Y MERCHED. Nos Lun 14 Gorffennaf, noson odidog a'r haf ar ei orau, cynhaliwyd y Trip Dirgel Blyneddol wedi ei drefnu gan y Llywydd, Mrs Pat Jones. Cyfarfu'r aelodau ym Maes Parcio pentref Llanberis am 6 o'r gloch. Yna fe'u cludwyd yn hmdenol i gwr pellaf y pentref a throi i'r cwith am lwybr yr Wyddfa. Wedi dringo'r allt serth dyna aros ger Pen Y Ceunant Isaf, brithyn a adeiladwyd yn y 19fed ganrif. Wedi disgyn o'r cerbydau

cafwyd golygfa wych o'r dyffryn islaw. Yng nghwmni y perchennog fe'n tywyswyd o gwmpas ystafelloedd y bwthyn, sydd wedi eu dodrefnu yn arddull y cyfnod yr adeiladwyd ef ac oedd yn rhyfeddod i'w gweld. Yna wedi ymgynnwll o gwmpas y bwrdd, cawsom sgwrs fywiog a diddorol am rinweddau cynhyrchion mēl a pherlysiau ar gyfer y croen, wedi eu paratoi yn dilyn hen rysetiau Celtaidd ac a drosglwyddwyd i'r perchennog gan ei nain. Cynhyrchir y cwbl yn gwbl broffesiynol a'r elw i gyd yn mynd i elusen. Manteisiodd llawer ar brynu gwahanol gynnyrch dan yr enw Cynhyrchion Aloma Lamar. Diweddyd y noson gyda phryd ardderchog yn Y Caban yn Llanberis. Diolchwyd un ag oll i'r llywydd am noson eithriadol o blesurus a hynny ar drothwy ein drws.

Nos Lun, 28 Gorffennaf yn Ysgol Gymuned Cwmyglo cyfarfu'r aelodau i drafod materion gweinyddol a ohiriwyd oherwydd na chyfarfu'r gangen ym mis Mehefin a'r Trip Dirgel fis Gorffennaf. Cydymdeimlwyd ag Elinor Williams yn ei phroffedigaeth lem a sydyn o golli ei brawd, y diweddar Elwyn Williams, Hen Golwyn.

LLWYDDIANT. Llongyfarchiadau i Carol Houston, 2, Trem Eilian am ennill Tystysgrif mewn Addysg yn dilyn cwrs yng Ngholeg Menai.

LLONGYFARCHIADAU. Bu Keith Rothwell, Llwyn Helyg a pherchennog Ye Olde Bulls Head, Beaumaris yn llwyddiannus mewn cystadleuaeth a gefnogwyd gan y WDA yn y Sioe Amaethyddol yn Llanellwedd fis Gorffennaf. Ef oedd yr enillydd cyntaf i gael ei wobrwyo yng Nghystadleuaeth Gwir Flas Dewis y Defnyddiwr. Daeth i'r brig am baratoi bwydlen Gymreig arloesol a fydd, maes o law, yn cael ei pharatoi ym Mwyty arbennig y Pharmacy yn Llundain gan y beirniad ei hun - y pencogydd Hywel Jones.

COFION. Bu Mrs Eirianwen Evans, 1 Ffrwd Madog am gyfnod yn Ysbyty Gwynedd. Deallwn ei bod gartref erbyn hyn. Dymunwn wellhad buan iddi. Ein cofion hefyd at Mrs Gwyneth Evans Ty'n Buarth sydd yn Ysbyty Gwynedd. Gwellhad buan i chwithau.

CYDYMDEIMLAD. Cydymdeimlir yn ddwys â Mr Dafydd Hughes, 12 Trem Eilian yn ei broffedigaeth o golli ei frawd, y diweddar Cynghorydd Owen Richard Jones, Rachub ar 28 Gorffennaf. Fel y gwyddom nid yw Mr Dafydd Hughes yn dda ei iechyd ar hyn o bryd ac anfonwn ein cofion ato gan ddymuno gwellhad buan iddo maes o law.

NOFIO NODDEDIG. Ddiwedd Awst, bydd Keith Rothwell, Llwyn Helyg, fel rhan o dim o chwech, yn rhoi cynnig ar nofio'r Cwlwr rhwng Lloegr a Ffrainc. Dewiswyd y lleoliad oherwydd y sialens arbennig mae'n ei gynnig i notwyr. Bydd y tîm yn cyfarfod â holl dreuliau'r ras eu hunain, sef £4000.

Fel rhan o'r paratoadau

byddant yn nofio o Beaumaris i Gaernarfon - 'O Gastell i Gastell' - cwrs anodd 12 milltir ar draws nifer o gerrynt llawn perygl.

Pwrpas yr ymdrech hon yw codi arian at achos da. Bydd yr arian a gesglir yn mynd i gynorthwyo plant sy'n dioddef o Cystic Fibrosis. Mae ffurflenni noddi ar gael yn y Swyddfa Bost yn y pentref a diolchir ymlaen law am bob cefnogaeth.

YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Y GYMDEITHAS. Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas yn y Ffestri nos Iau, Gorffennaf 1af.

Y cadeirydd oedd Mr R. Wyn Evans, Ty'n Buarth. Cymerwyd at y rhannau arweiniol ar thema'r Ddaear a'i Chynnyrch gan Mrs Lowri Roberts Williams, Godre'r Coed. Y siaradwr gwadd oedd Gareth Edwards-Jones, Fferm Penllyn. Yn frodor o Ddyffryn Clwyd mae'n dilyn swydd ym Mhrifysgol Cymru Bangor fel Athro yn yr Ysgol Gwyddorau Amaeth a Coedwigaeth. Gyda chymorth cyfarpar cyfrifiadurol 'Power Point' cyfarfod noson addysgiad a diddorol iawn yn olrhain datblygiad amaethyddiaeth yng Nghymru ers 1900 - cynnyrch y tir a da byw a'r sefyllfa sy'n bodoli heddiw rhwng yr archfarchnad oedd a chynnyrch yr amaethwr. Roedd y sgwrs yn adlewyrchu llawer o waith ymchwil a oedd o fudd i bob un oedd yn bresennol. Yn dilyn trafodaeth ar nifer o gwestiynau talwyd gair o ddiolch clodwiw i'r siaradwr gwadd gan yr amaethwr yn ein mysg, Mr Robert John Williams.

Paratowyd y lluniaeth gan Mrs Megan Jones, Greuor Villa a Mrs Eleanor Jones, Na Nog.

Bydd y cyfarfod nesaf yn cael ei gynnal wythnos yn ddiweddarach nag fel yr hysbysir yn Rhaglen y Tymor, sef nos Iau 18 Medi pryd y disgwylir cwmni'r Parch John Glyn i roi sgwrs ar y testun 'Gruffydd ap Cynan'. Y Cadeirydd fydd Mrs Elen George, Sŵn yr Engan.

HENADURIAETHIAETHOL. Dymunwn yn dda i Mr Gwyn Hefin Jones, Rhandir ar ei ethol yn Llywydd Henaduriaeth Arfon o blith ei blaenoriaid am 2003. Troslwyddwyd y gadair iddo yn absenoldeb y Parch Gwenda Richards gan Ysgrifennydd yr Henaduriaeth, y Parch Dafydd Hughes, yng nghyfarfod o'r Henaduriaeth a gynhaliwyd yng Nghapel Glanrhyd nos Fawrth, 22 Gorffennaf. Bu hefyd eleni yn cynrychioli'r Henaduriaeth yng Nghymanfa Gyffredinol Eglwys Bresbyteraidd Cymru a gynhaliwyd yn Llanbedr Pont Steffan Gorffennaf 14-17.

YR YSGOL SUL. Yn ystod tymor yr haf croesawyd aelod newydd, sef Elin Morris 5 Minffordd. Bu Elin ynghyd â Caryl ac Awen Jones,

Rhian ac Anna George yn brysur yn ystod Mehefin yn paratoi sgript, a baratowyd gan Rhian George, dan y teitl 'Moliant am y Beibl' i'w chyflwyno yng nghyfarfod blyneddol Cymdeithas y Beiblau a gynhaliwyd eleni yng Nghapel Ebeneser, Deiniolen.

Cyflwynodd Elin ac Anna hefyd gân o foliant i'r Esgob William Morgan gyda Mrs Lowri Roberts Williams yn cyfeilio. Cafwyd cyfarfod bendithiol dan arweiniad Miss Jean Parc Jones, Ebeneser gydag Ysgolion Sul Dinorwig, Sardinis, Eglwys Llandinorwig, Ysgol Sul Unedig Deiniolen, Bosra ac Eglwys Santes Helen, Penisarwaun yn cymryd rhan yn ogystal.

Cafodd pawb y fraint yn ystod y cyfarfod o gael llongyfarch Mrs Katie Lloyd Hughes, Dinorwig ar yr anrhydedd a ddaeth i'w rhan o ennill y Fedal Gee eleni. Roedd Mrs Hughes yn bresennol yn y cyfarfod ac wedi dod â'r Fedal hardd gyda hi i'w harddangos. Priodol iawn oedd cydnabod ffyddlondeb un a fu'n beddar ugain mlynedd, ac yn dal i addysgu disgyblion ar ei haelwyd, yng ngŵydd aelodau ieuanc presennol Ysgolion Sul y Dosbarth.

Ddydd Sul, 13 Gorffennaf bu ieuenctid yr Ysgol Sul yn cymryd rhan yn y Sbri flynyddol a gynhaliwyd yn Ysgol Brynrefail wedi ei drefnu gan Bwyllgor Ysgol Sul ac Ieuenctid Henaduriaeth Arfon.

OEDFAON MEDI

- 7: Parch John Owen, Bethesda am 5.30
- 14: Parch Reuben Roberts, Bontnewydd am 5.30
Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd
- 21: Mr Evan Jones, Bontnewydd am 10.00
- 28: Parch Cath Williams, Caernarfon am 10.00



**ORIEL
CWM
Cwm y Glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio
Lluniau o bob math
ar gael ar y safle
Prisiau Rhesymol
Arddangosfa o luniau
gwreiddiol gan
Artistiaid Lleol
Richard S. Humphreys

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat - nosweithiau allan, partïon, tripiâu ac ati.
Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



(01248) 361044

D. P. OWENS RHIWLAS

Cofnodion Cyfarfod y 1af o Orffennaf 2003

Yn bresennol :- Y Cadeirydd Miss Sara Wood; Y Cyngorwyr Miss Phyllis Ellis, Huw P. Hughes, Elwyn Jones, Philip Jones, R. Len Jones, Richard Ll. Jones, Dafydd Morris, Dafydd Williams, Gwilym Williams, a'r Cyngorydd Sir Mrs Pat Larsen.

Paratowyd y cwestiynau canlynol ar gyfer ymweliad yr Heddlu:

Len Jones - Torrwyd i mewn i dŷ yn Fachwen, ond ni ymddangosodd yr Heddlu am oriau. Cofnodir ystadegau'r Heddlu yn ôl nifer y galwadau. Er engraifft, un noson malwyd gwydrau 26 o geir o Lanrug i Ddinorwig. Gan mai un ymweliad a wnaed gan yr Heddlu - un drosedd a gofnodwyd.

Huw Hughes - Mae'r fandaliaeth a'r malu ym Methel ar nos Sadwrn yn ddifrifol, a'r Heddlu'n gwneud dim yw arbed. Y Cyngor Sir sydd bellach yn gyfrifol am ganiatáu trwyddedau diodydd. A ydynt yn cael eu rhoi yn rhy rwydd?

Richard Jones - Digwyddiadau cyfraith a threfn yw penawdau'r *Herald* bob wythnos. Mae'r troseddau cefn gwlad bellach yr un fath a rhai'r trefi, y gwahaniaeth yw bod yr Heddlu yn barhaol bresennol yn y trefi ond yn ymateb i drosedd cefn gwlad ar ôl y digwyddiad. Mae angen polisi pendant ar gyfer cefn gwlad.

Phyllis Ellis - Mae camymddwyn yn cynyddu ym mhentrefi fel Penisa'rwaun, dylai'r heddlu fod o gwmpas yn amlach i geisio atal hyn.

Croesawodd y Cadeirydd yr aelodau, Yr Arolygydd Simon Davies a'r Rhingyll Sophie Chance, o Awdurdod yr Heddlu, a Miss Eira Huws o Gyngor Gwynedd.

Arweiniwyd y cyfarfod trwy weddi gan y Cyngorydd Richard Llwyd Jones.

Ymddiheuriadau - R. Hefin Williams, Aled Green ac Idris Morris.

Datgan Buddiant - Nid oedd datganiad.

Trosedd ac anrhefn

Cychwynwyd y drafodaeth gan y Cyngorydd Len Jones trwy ddiolch i Miss Eira Huws am ei chefnogaeth i osod camerau ar Stryd Fawr, Deiniolen. Gwerthfawrogi y gosodiadau yn fawr, mae Deiniolen yn un o ddau bentref yn unig trwy Gymru gyfan sydd â gwasanaeth o'r fath.

Cwestiwn 1. Ateb yr Arolygydd Simon Davies: Mae ystadegau'r Heddlu bellach yn cofnodi troseddau unigol, hyd yn oed os ydynt yn ymateb i nifer o droseddau ar un ymweliad.

Cwestiwn 2. Ychwanegodd Y Cyngorydd Huw P. Hughes - Mae camymddwyn hefyd yn Rhiwlas. Nid yw system ateb yr Heddlu yn hawdd, mae'r henoed yn cael trafferthion wrth geisio galw am wasanaeth. Hefyd mae'r ffaith bod tafarnau yn gwerthu

Cyngor Cymuned Llanddeiniolen

poteli diod i'w hyfed y tu allan yn cyfrannu at ddrwgweithredu.

Ateb: Yr Heddlu yn ymwybodol o'r trafferthion. Dylai bod 38 heddwys yn atebol i'r Arolygydd. Yn ystod y 9 Mis diwethaf bu'r nifer cyn lleied â 21, ar hyn o bryd mae ganddo 32. Bwriedir penodi mwy, mae hysbyseb ar hyn o bryd am heddwys i Felinheli/Bethel/ Maesincla. Gosodwyd system ateb newydd yn y pencadlys ym Mis Mai eleni, bu trafferthion am hir ond mae pethai'n well erbyn hyn.

Cwestiwn 3. Dywedodd y Cyngorydd Richard Ll Jones ei bod yn galonogol bod y Prif Gwnstabl yn gwneud ymdrech i gyrraedd y cyhoedd.

Ateb: Mae llai o heddwysion ar gyfer cefn gwlad na sydd mewn tref oherwydd nifer y boblogaeth. Bwriedir penodi un ar gyfer Deiniolen maes o law.

Cwestiwn 4. Ychwanegodd y Cyngorydd Phyllis Ellis bod nifer o boteli wedi eu torri o gwmpas yr ysgol a bod plant ar do'r ysgol nos Wener diwethaf.

Ateb: Gobeithir trefnu mwy o ymweliadau'r Heddlu. Dywedodd Eira Huws bod bwriad i osod camerau symudol yma ac acw er mwyn adnabod drwgweithredwyr o bob math, hyd yn oed y rhai sy'n gadael sbwriel.

Cwestiynau ychwanegol:

Y Cyngorydd Philip Jones - Beth yw ymateb yr heddlu i ddigwyddiadau ansyddogol fel y Rêfs a gynhelir yn Hafodty, Dinorwig.

Ateb: Cysylltu â'r Heddlu yn uniongyrchol. 'Gadewch i ni wybod'. Miss Eira Huws - Mae cynllun wardeiniaid cymunedol wedi bod mewn bodolaeth mewn llefydd fel Maes Barcer ond nid oes cyllid i ymestyn hyn i'r ardaloedd gwledig.

Y Cyngorydd Richard Ll Jones - Pa fath o droseddau sy'n pryderu'r heddlu fwyaf?

Ateb: Torri i mewn a Dwyn yn llai na throseddau eraill. Nifer o ymosodiadau yng Nghaernarfon, yn enwedig o gwmpas y Nadolig. Y rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig ag alcoholiaeth. Mae llawer o ddwyn ceir a dwyn o geir, mae 64% o'r cyfan yn gysylltiedig â cherbydau. Yr Heddlu yn teimlo eu bod yn llwyddo i wella'r sefyllfa. Ymddwyn yn anghymdeithasol yw'r broblem fwyaf yn y pentrefi.

Diolchodd y cadeirydd i'r tri gwestai am eu presenoldeb ac am eu hymateb i'r aelodau.

Ceisiwyd brysio gweddill y rhaglen gan mai prin awr oedd oedd ar ôl.

Cofnodion Mehefin

Derbyniwyd fel rhai cywir.

(1) Richard Ll Jones;

(2) R Len Jones

Materion o'r cofnodion

Golau ychwanegol ar ffordd

Penrhôs, Bethel. Y Clerc i drafod y gosodiad ymhellach gyda'r Cyngor Sir.

Ateb Adran Prif Weithredwr Gwynedd - Diolch am y gwerthfawrogiad o waith Mr Eurwyn Griffith, nodwyd sylw'r Cyngor i ail lenwi'r Swydd.

Ateb Adran Hamdden Gwynedd ynglŷn â thâl parcio yng Ngilfach Ddu.

Penderfynwyd gofyn iddynt am ffigyrau Mehefin a Gorffennaf gan bod y rhai a dderbyniwyd yn cynnwys cyfnod y Pasg.

Ateb ar ran Y Bnr Hywel Williams AS nad oedd yn gyfleus i ymweld â'r Cyngor ym Mis Tachwedd - ar gyfer Hydref oedd y gwahoddiad - cysylltu a'i swyddfa eto.

Ateb Adran Prifffyrdd Gwynedd - cysylltir eto ynglŷn â chysgodfan Bws Rhiwlas. Archwiler y ffôs ger Tal y Waun, Deiniolen eto.

Ateb Adran Tai Gwynedd i'r gŵyn bod tân gwyllt yn cael eu gollwng yn Rhiwlas bob amser o'r dydd a'r nos ac yn dychryn yr henoed. Unig gynnwys yr ateb yw llyfryn uniaith Saesneg yr Adran Masnach a Diwydiant - *Stay safe, be bright, on fireworks night!*

Ateb Adran Tai Gwynedd ynglŷn â'r gwaith trin carthion, Dinorwig. Penderfynwyd gofyn iddynt pa mor aml y mae'r tanciau yn cael eu gwagio.

Ymateb i ddatganiad **Cymdeithas yr Iaith**. Penderfynwyd disgwyl am ymateb Cyngor Gwynedd cyn danfon ymateb i'r Gymdeithas.

Gohebiacthau eraill

Llythyr Mr B. Jones Preswylfa, Clwt y Bont, yn gofyn am arwydd ar gyfer 1, 2, a 3 Preswylfa. Ei ddanfôn i Adran Ffyrdd Gwynedd.

Llythyr Cerys Gadd, Y Ddôl, Bethel yn cwyno am amseroedd bysiau i / ag o Gaernarfon. Penderfynwyd ei ddanfôn ymlaen i Gyngor Gwynedd.

Hysbyseb Cyngor ar Bopeth - Cyfarfod Cyffredinol ar Nos Fercher 16eg o Orffennaf yn yr Institiwt, Caernarfon.

Hysbyseb yr Heddlu - Cyfarfod Cyhoeddus ar 24 Gorffennaf yn Neuadd y Pentre, Abersoch.

Mantell Gwynedd - Cyflwynwyd eu llythyr yn amlinellu blaenoriaethau Amcan 1/ Cronfa Allweddol Gwynedd.

Penderfynwyd trosgwyddo copi i'r Grŵp Cymunedol. Copiau hefyd i'r Cyngorwyr Sara Wood a Philip Jones.

Cynhadlodd flynyddol CCBTC yn Aberystwyth. Mae'r dyddiad, sef y 27ain o Hydref, yr un diwrnod a'r gêm bêl droed Cymru yn erbyn y Ffindir. Penderfynwyd gofyn i'r Gymdeithas a oes modd newid y dyddiad. Trafod cynrychiolwyr eto yng Nghyfarfod Medi. Y Cadeirydd a'r Cyngorydd Len Jones i gyfarfod er mwyn ffurfio cynigion i'r gynhadlodd erbyn y 25ain o Orffennaf.

Hysbyswyd y cyfarfod bod y cyn glerc Mr Selwyn Griffydd wedi dathlu ei ben-blwydd yn 75. Penderfynwyd danfon gair i'w longyfarch ac i ddymuno'n dda iddo.

Dywedodd y Cyngorydd Len Jones bod y ffordd yn rhoi, ger Tan y Bwlch, Dinorwig. Penderfynwyd cysylltu ag Adran Ffyrdd Gwynedd.

Gan nad oes rhaglen Sgipiau Cymunedol wedi ei derbyn ers cryn amser, penderfynwyd gofyn i Wynedd am fanylion.

Cynllunio

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Estyniad - Aralia, Pentir, Rhiwlas; Estyniad - Fron Dêg, Dinorwig; Mewnforio pridd - Efail Castell; Codi annedd - Glyn Euron, Penisa'rwaun; Dau Dŷ - Hen Fodurdai, Clwt y Bont Estyniad - Adwy'r Dŵr, Bryn'refail.

Pedwar Tŷ - Saffle Tabernacl, Deiniolen. Caniatad amlinellol, trafodir sylwadau'r Cyngor a'r Cyngorydd Len Jones cyn caniatáu'r cais manwl.

Llwybrau

Gwnaeth y Cyngorydd Mrs Larsen sylw cyffredinol ynglŷn â llwybrau, gan amau a yw pob llwybr i fod yn gyhoeddus. Llwybrau o fferm i fferm oedd rhai ohonynt yn y cychwyn, mae'r amodau newydd *hawliau crwydro* hefyd yn amharu ar breifatrwydd rhai eiddo.

Awgrymwyd cysylltu â Menter Fachwen oherwydd bod eu trefniadau torri gwair, o bosibl, wedi newid.

Eglurodd y Clerc bod Grŵp Rhiwlas wedi archwilio llwybrau'r ardal. Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc ychwanegu at y gwaith torri gwair arferol os bydd angen.

Adroddiadau

Cafwyd adroddiad gan y Cyngorydd Dafydd Williams, ysgrifennydd y Grŵp Cymunedol.

Materion ychwanegol

Dywedodd y Cyngorydd Len Jones bod safon y gwaith torri gwair o Cae Cerrig i gyfeiriad Deiniolen yn ddifrifol, a'i fod wedi derbyn amryw o gwynion oddi wrth y cyhoedd.

Awgrymodd hefyd y dylai'r Cyngor longyfarch Mr Tom Jones, Rhiwen ar dderbyn yr M.B.E.

Cylchfan newydd Tyddyn Hen. Dywedodd y cyngorydd Huw P Hughes bod y gwaith wedi ei wneud yn effeithlon ac yn dda gan awgrymu llythyr o ddiolch i Bob Daimond, Cyfarwyddwr Prifffyrdd Gwynedd, gan ofyn iddo hefyd gyfleu ein gwerthfawrogiad i Whitley, y contractwyr.

Penderfynwyd gweithredu ar y tri mater.

Dyddiad y Cyfarfod nesaf:
2il o Fedi

Cefnogwch
ein Hysbysebwy

Côr Y Waun

Cynhaliwyd cyfarfod blynyddol y côr ar nos Sul 29 Mehefin. Derbyniwyd adroddiad ariannol gan y Trysorydd, Mr Dewi Jones, a chrynodeb o weithgareddau'r flwyddyn a fu gan y Cadeirydd, Mr John Gwynedd Jones. Etholwyd swyddogion gyda Mr John Gwynedd Jones yn Gadeirydd am y flwyddyn nesaf eto. Penderfynwyd gofyn i Mr R. Gwynn Davies i fod yn Llywydd Anrhydeddus ar y côr, cynnig a dderbyniwyd gyda diolch a rhodd garedig.

Dechreuwyd y flwyddyn ddiwethaf gyda chyngerdd ar 11 Hydref gyda Hogia'r Wyddfa a phlant Ysgol y Waun i godi arian at Tŷ Gobaith. Codwyd £900 y noson honno. Yn ystod y flwyddyn bu'r côr yn cynnal nosweithiau yn difyrru'r ymwelwyr yng Ngwesty Fictoria yn Llanberis unwaith eto, lle mae Gwynn Davies yn ymarfer ei ddawn dweud jocs (a John Gwynedd yn cael ambell gyfle i ymarfer ei ddawn cyfieithu...!).

Cafwyd nosweithiau o ganu carolau yn yr Antur, Cymdeithas Capel Edern, Canolfan Dydd Maesinla ac mewn cartrefi henoed lleol. Cynhaliwyd cinio Nadolig y côr yng ngwesty'r Eryl Môr gydag uchafbwynt y noson mewn gêm o Siôn a Siân, pan ofynnwyd i'r arweinyddes sut y byddai'n disgrifio ei gŵr - ai fel crotchet, quaver ynteu minim? Semibreve oedd yr ateb! Bu'r cyfnod yn arwain at y Nadolig yn eithaf prysur ac yn gorffen gyda chyngerdd yn Eglwys y Santes Fair Caernarfon, hefo'r elw yn mynd at Tenovus.

Bu misoedd cynta'r flwyddyn yn dawelach gyda chyhoeddiadau'r Victoria yn ail-gychwyn ddiwedd Mawrth. Buom yn cymryd rhan mewn cyngerdd agor Canolfan newydd Caethro yn nechrau Ebrill a derbyn gwahoddiad i ymuno mewn dwy Gymanfa

Ganu. Yna aeth yr amser ar ddarparu am ymweliad côr St Martin Norten-Hardenberg o'r Almaen yng Ngorffennaf.

Trefnwyd yr ymweliad rhwng Sioned Hughes ac arweinyddes y côr pan fu iddynt gyfarfod ym Mhatagonia. Cawsom gyfle i groesawu aelodau'r côr ac ymarfer ychydig gyda'n gilydd ar nos Sul y 12fed. Cynhaliwyd cyngerdd cofiadwy ar y cyd yn Eglwys y Santes Fair ar nos Fawrth 15 Gorffennaf, gydag elw'r noson yn mynd i'r Eglwys. Cyd-ganwyd darnau yn Sbaeneg, Almaeneg a Chymraeg i gloi'r noson. Bu'r ddau gôr yn canu yn y Fictoria ar y nos Iau, a gorffenwyd yr wythnos gyda barbeciw yn yr Antur ar nos Wener, a gwahoddiad i'r côr (a Doug os medrith gyrraedd ar amser) i ymweld â'r Almaen y flwyddyn nesaf.

Mae'r côr eisoes gyda nosweithiau wedi eu cynllunio ar gyfer 25 Medi a 20 Tachwedd yng Ngwesty'r Fictoria. Wedi dweud hyn mae'r côr ar gael i gynnal nosweithiau, ac os ydych â diddordeb, cysylltwch â'r Arweinyddes Mrs Gwenda Griffiths (01286 650 347) neu'r Ysgrifennydd Mr Emyr Roberts (01286 650 128).

DYMUNA teulu y diweddar Myfi Evans (Nyrs), Tŷ Eryri, Talysarn (gynt o Gwm-y-glo) ddiolch o galon i'r teulu a ffrindiau oll am y cardiau, llythyrau, galwadau ffôn a'r rhoddion hael o £1,200 at Tŷ Gobaith a £100 i Glwb Stroc, Noddfa, Caernarfon.

Diolch hefyd i Dr J.M. Jones a staff Dolwenith, nyrsus ardal a staff ward Conwy.

Diolch i'r Parch H.G. Roberts am ei wasanaeth yn y tŷ a'r fynwent ac i'r ymgymwrwr Mr R. Thomas, Talysarn am y trefniadau gofalus.

SNOWDONIA PARC WAUNFAWR

- Tŷ Rhydd • Bwyd Cartref • Prydau Plant
- Ystafell Deulu • Cinio Dydd Sul Traddodiadol
- Cerddoriaeth Fyw • Cwrw Go lawn

Ffôn: 650218

H. E. HUGHES A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys
LLANBERIS

FFôn: 870444



- Gwerthwyr Glo ac
- Olew Gwres Canolog i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser Aneuryn Jones a'r staff

DODREFN PERKINS

(Safle'r hen Nelson)
CAERNARFON

Ffôn: (01286) 676 040

- Pob math o ddodrefn tŷ
- Cegin, 'stafell fyw, llofft
- Prisiau cystadleuol
- Danfon am ddim i holl ardal Bro'r Eco

E. W. Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: (01286) 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175
GWYLIAU CARTREF A THRAMOR
 Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o
 redeg Pecynnau Gwyliu oll-gynhwysol

Gwasanaeth o'r Safon Uchaf am Brisiau Rhesymol



Gwasanaeth Trylwyr
 gan y bobl **BROFFESIYNOL**
 Gwasanaeth Personol Cyfeillgar i **CHWI**
 Y Gwasanaeth Technegol Gorau
 i'ch **CAR**. Cystal â
 Gwasanaeth Prif Ddeliwr
 Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
 o Audi i Zastava



Car neu Fan
 Petrol neu Disel
 Carb. neu Chwistrelliad

bydd ein Gwasanaeth
 ni yn arbed £££ ichwi
 ac yn ymestyn oes eich car



YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



**J.M.
 JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
 CERRIG
 BEDDAU**

**Y Sgwâr
 Llanrug**

Crefftwyr gwaith
 llaw traddodiadol
 Cerrig o bob math
 ar gael –

Ffôn: (01286)
 672898 (dydd)
 676285 (nos)

Jones
 Contractwyr
 Trydan



Whitehead Cyf.

Prif swyddfa
 Penralla, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982

Goleuadau
 Argyfwng ac
 offer Larwm Tân

Gwasanaeth i
 Gymru Gyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan
 Eisteddfod yr Urdd
 a'r Genedlaethol

CAB GWYNEDD & DE YNYS MÔN

Bangor • Caernarfon • Dolgellau • Pwllheli

Rydym angen

**cyngor
 ar
 bopeth**

GWIRFODDOLWYR

Ydych chi'n ddibynadwy ac yn gallu rhoi chwe
 awr o'ch amser bob wythnos? Nid oes angen
 profiad na sgiliau arbennig, cewch hyfforddiant
 llawn.

Am fwy o wybodaeth, ffoniwch:

(01286) 677013

GORSAF BETROL

Esso BERAN

DEINIOLEN

Ffôn: (01286) 871521

Ar agor 7 a.m. – 9 p.m. bob diwrnod

**Petrol • Disel • Nwy Calor • Glo
 Cylchgronau • Papurau Newydd
 Cardiau Penblwydd • Wyau
 Nwyddau Groser • Melysion**

TICEDI LOTERI AR WERTH YMA!



GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU GWYLIAU YM MHRVDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNCHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMOL.
- BWSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CWMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

**Am fwy o fanylion am ein teithiau, ffoniwch
 ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333**



GARETH GRIFFITH
A'I GWMNI

Cyfreithwyr

6 Pepper Lane, Caernarfon, LL55 1RG

Tel: **67 68 69** Ffacs: 67 77 05

E-bost: ggriffith.ggco@virgin.net

- Prynu a Gwerthu Tŷ • Ewyllysiau a Phrofiant
- Hawliadau Damweiniau • Prydles ac Eiddo
- Cyfreithiad Troseddol a Sifil • Deddf Drwyddedu
- Ysgariad a Gwarchodaeth Plentyn
- Perchennog a Tenant
- Pob Gwaith Cyfreithiol Cyffredinol

NANT PERIS

Llinos Jones, 6 Nant Ffynnon. Ffôn: (01286) 871820

REIDIO DROS AMERICA. Aelod o ddau grŵp gwirion ydw i. Dawnsywr Delyn - ddim yn hobi anghyffredin iawn yng Nghymru mae'n debyg. Ond hefyd yr RCGCB, sef y Roller Coaster Club of Great Britain. Tua mil a hanner o bobl o bob oedran sy'n hoffi reidio coasters ar draws y byd. Mae'r clwb yn trefnu teithiau i barciau ym Mhrydain bob blwyddyn, a mantais o fod yn aelod yw cael sesiynau preifat heb y cyhoedd ar y reidiau mawr. Er enghraifft Nemesis, Air ac Oblivion yn Alton Towers; The Big One yn Blackpool, a Colossus a Nemesis Inferno yn Thorpe Park.

Bob yn ail blwyddyn, mae'r grŵp yn mynd i'r UDA. Felly dyna lle roeddwn i am bythefnos ym Mehefin, efo 85 o bobl eraill, yn dechrau yn Texas ar ffin Mexico, a theithio drwy Oklahoma, Missouri, Indiana, Kentucky, Ohio a Michigan. 12 o barciau, 76 o coasters, a llawer o hwyl a haul!

Hoff deimlad y coaster-fans ydy 'airtime'. Y teimlad o fod heb bwysau ac arnofio ar yr awyr. Cawsom lawer ohono ar Shivering Timbers yn Michigan, fy hoff coaster pren. Mae ganddo 12 o fryniau airtime, un ar ôl y llall, a mae'n brofiad rhyfeddol. Mi ges i tua 40 o droeon arnol Roedd llawer o airtime hefyd ar Drop Zone, y tŵr syrthio talaf yn y byd, yn Ohio. Ie, nid dim ond coasters oedd ar y daith ond pob math o reidiau anfad. Hefyd, mi welais ddraig goch yn Worlds of Fun, Kansas City.

Roedd Mr. Freeze yn brofiad hefyd. 0-60 milltir yr awr mewn tair eiliad a hanner ac wedyn syth i fyny tŵr o 200 troedfedd, a chwympo'n ôl wysg eich cefn. A Son of Beast, dyma'r coaster pren talaf yn y byd a'r unig un efo dolen. Yn Holiday World, Indiana cawsom wahoddiad i gael pryd o fwyd gyda'r nos yn nhŷ perchnogion y parc. Roedd y croeso yn anhygoel. Llwyddasom i ddenu llawer o ddiddordeb gan y cyfryngau hefyd, mae'n anghyffredin gweld cant o Brydeinwyr yn dod i barc i reidio'r coasters ynddol. Gan fod y pellter teithio trwy America mor hir, cawsom 'dydd i ffwrdd' hefyd yng nghanol dinas St. Louis, lle es i i fyny'r Gateway Arch ac ar daith i lawr yr afon Mississippi.

Hyd yn hyn, dwi wedi reidio 261 o coasters gwahanol, a dwi'n gobelthio ychwanegu at y cyfanswm hynny yn fuan. Bydd y clwb arall sy'n seiliedig ym Mhrydain, yr ECC - European Coaster Club, yn mynd i Sbaen ym mis Medi a Siapan y flwyddyn nesaf.

Dwi'n synnu bob amser ar bobl sy'n ofnus o bethau fel hyn! Dwi byth yn teimlo'n dâl, a does arna i ddim ofn chwaith. Mae'n llawer o hwyl teimlo G positif a negatif cryf, a hedfan yn gyflym trwy'r awyr. A mae'n hollol saff hefyd, ddim fel noidio allan o awyren! Triwch o rhywbryd, efallai bydddech chi'n dod o hyd i hobi newydd!

Mae adroddiad llawn a mwy o luniau ar gael ar y We hUp://www.users.zetnet.co.uk/csi mon/45599/

CHRIS SIMON

LLONGYFARCHIADAU i Aled Davies, Tan Bryn ar basio ei arholiad gradd ym Mhrifysgol Bangor. Pob lwc ar gyfer y dyfodol. DYMUNA Alice Cumberton, Ty'n Llan, ddolch o galon i bawb am y dymuniadau gorau a'r anrhegion a dderbyniodd pan oedd yn frenhines carnifal Nant Peris eleni.

POB HWYL i Manon Pritchard, Fron a fydd yn dechrau yn Ysgol Brynrefail fis Medi. Hefyd Gethin Pritchard a Janie Lampard.

LLONGYFARCHIADAU i bawb sydd wedi cael llwyddiant yn eu harholiadau yn Ysgol Brynrefail. Daliwch ati i weithio'n galed!

Gŵyl Ffair Nant Medi 2003

Sad, 13: Derbyn blodau i Eglwys St. Peris - 12.00

Gŵyl Flodau am yr wythnos o 12.00 tan 4.00 o'r gloch.

Sul, 14: Cymanfa Ganu yng Nghapel Rehoboth am 7.00

Maw, 16: Cwis yn Ty'n Llan am 9.00, noddur gan Guinness.

Mer, 17: Cystadleuaeth Pŵl Dyblau am 7.00 yn Ty'n Llan;

Iau, 18: Helfa Drysor am 6.00 o Ty'n Llan ac yna Canu Carioc!

Gwe, 19: CAJUNS DENBO yn Ty'n Llan am 8.00;

Sad, 20: Y FFAIR am 12.00, Sêl Cist Car, Stondinau lu ac Elvis ar y cae.

Brian a Rita Henderson

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR

Ffôn: 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid - 'bulk' a rhydd - y rhataf yn lleoli
- Nwyddau groser, alcohol, cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau

I drin a thrwsio pob math o beiriannau gwnïo
MENAI SEWING MACHINE CENTRE

21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon
Ffôn: (01286) 674520

Edau, Nodwyddau
ac ati mewn stoc

DINORWIG

Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

A ninnau yn dod i ddiwedd tymor yr haf, rhaid yw eistedd i lawr unwaith eto i ysgrifennu i'r Eco. Cawsom haf arbennig o braf eleni, a gwelsom lawer o ymwelwyr yn ymdeithio hyd yr ardal.

Yn hollol annisgwyl, gwelsom lorïau mawr yn mynd i fyny ac i lawr yr ardal yn cario pridd i wneud cae pêl-droed yn yr Allt Ddu, medda nhw. Yr oedd hyn yn gwneud gyrru yn ein ceir yn anodd iawn gan fod y ffordd mor gul a'r waliau yn bochio allan mewn llawer lle, er inni weld gweithwyr y cyngor yn ailadeiladu ychydig o'r bylchau. Ond pam, os am wneud gwaith ar y waliau, ei wneud o Dan y Foel i'r Allt Ddu, ac wrth gwrs os ydym i orfod dioddef lorïau mawrion. Nid gwella pethau mae hyn ond gwaethygu pethau yn arw. Y sawl sydd ganddo glustiau i wrando - gwrandewch - cyn i ddamwain ddigwydd.

YN YR YSBYTY. Yr ydym fel ardal yn dymuno gwellhad buan i Mr Reginald Faulkner, Fron Dirion sydd wedi bod yn Ysbyty Gwynedd ac ar hyn o bryd yn yr ysbyty ym Manceinion, wedi cael llawdriniaeth. Gobeithio y cawn ei weld adref wedi gwella yn lled fuan.

CLWB ORWIG. Mewn cyfarfod o'r clwb ar 10 Gorffennaf cafodd yr aelodau de o hufen a mefus. Rhoddwyd y danteithion blasus hyn gan Ann Lo a Margaret Faulkner. Cafwyd sgwrs ddifyr gan Ray Bower ar y testun 'Fy hoff

wyliau' pryd yr adroddodd am ei fordaith bleserus i Fôr y Canoldir, y bu ef a'i briod arni beth amser yn ôl. Diolchwyd i bawb am eu cefnogaeth i apêl Milltir Macmillan Gwynedd. Casglwyd £456 gan y Clwb.

Ar 24 Gorffennaf, cafodd yr aelodau foddhad mawr o wrando ar sgwrs gan Alice Griffiths yn y gyfres 'Atgofion Aelodau'. Yr oedd yn dwyn i gof ei hymweliad hi ac Andrew â Phalas Buckingham, yng nghwmni nifer o barau eraill a ddigwyddai ddathlu Hanner Can Mlwyddiant eu priodas yn 1997. Cafwyd hanes dydd priodas y ddau yn 1947 hefyd. Hwyl oedd y pâr cyntaf i briodi yng Nghapel Sardis.

Yn dilyn bu trafodaeth ar leoliad trip y Clwb ym mis Medi a lleisiwyd amheuan am y cae chwarae sydd i'w ddarparu yn Allt Ddu. Rhoddwyd y te gan Betty Bower a Kathleen Davies a rhoddwyd gwobrau'r raffl gan y ddwy, ynghyd â Joan Glass. Yr enillwyr oedd Betty Roberts, Alice Griffith, Betty Jones a Betty Bower.

LLONGYFARCHIADAU. A gwyliau'r haf drosodd carwn ddymuno'n dda i'r rhai a wnaeth mor dda yn yr arholiadau. Dymunwn yn dda iddynt yn y colegau; y plant fydd yn mynd i'r ysgol am y tro cyntaf; y rhai fydd yn newid ysgol a'r rhai fydd yn troi allan i weithio am y tro cyntaf. Dymuniadau gorau i chwi i gyd.

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD CANOLFAN CARPEDI

WAUNFAWR

Ffôn/Ffacs: (01286) 650291



Dewis eang o Welyau a 3P/Suites. Llenni Venetian a Llenni Roler. 5,000 llathen sgwâr o garpedi mewn stoc - allwch chi fforddio prynu o batrymau?

GLANHAU CARPEDI GYDA STIMVAK

Ar Agor

9-7 pm

9-5 pm Sadwrn

Ar Gau

Sul a Mercher

Royal Victoria Hotel LLANBERIS

Mae'r gwesty yn darparu ar gyfer
PRIODASAU • PARTÏON • DATHLIADAU ac ACHLYSURON ARBENNIG

CYFLEUSTERAU CYNHADLEDDAU a PHWYLLGORAU

BWYDLEN BAR a CHINIO DYDD SUL

Ffôn: (01286) 870253

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

LLONGYFARCHIADAU i Esmor Wyn Hughes, Bryn Eden am ddod yn Fyfyriwr y Flwyddyn am yr eildro yng Ngholeg Llysfasi, Rhuthun. Mae Esmor yn astudio Cwrs Diploma Cenedlaethol mewn Contractio Amaethyddol.

SYMUD Tŷ. Mae Edwina ac Eifion Hughes a'r teulu wedi symud i fyw o Dyddyn Cae i Bryn Eden ac maent yn ymgartrefu yno yn hapus iawn.

GWELLA. Da gweld Mr Ifor Hughes yn gwella ar ôl ei driniaeth yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar. CRWYDRO. Dyna yw hanes Seimon Hughes, Cefn Gwern. Mae o a dau ffrind wedi ymadael am Awstralia ac roedd y tri mewn priodas cyfnither i un o'r bechgyn yn Bangkok dydd Sadwrn diwethaf. Maent yn treulio mis o amgylch Thailand, Malaysia a Bali ac yna ymlaen i Awstralia i chwilio am waith gan ddychwelyd ymhén y flwyddyn. Hwyl fawr ar y gweithio a'r mwynhau hogia.

YMCHWIL Y GALON. Diolch i ymdrech casglu Alun a Vera Roberts, Erw Wen a haelioni'r pentrefwyr, casglwyd £86 tuag at Ymchwil y Galon.

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod ar nos Fawrth, 24 Mehefin gyda'r Cynghorwyr Vera Roberts a Clive James yn bresennol. Yn anffodus, nid oedd Cyngor Gwynedd wedi gweithredu ar unrhyw un o'r tair etiem ym Mryn y Gof.

Er mwyn ceisio tawelu traffig trwy'r pentref bydd y Cyngor yn gofyn am striperi twrw ger y trefyn 30mya ar ochr Caernarfon, culhau'r lôn a chreu pafin rhwng Eryl Cottage a'r Bwthyn.

Yn groes i farn y Cyngor mae Cyngor Gwynedd wedi caniatáu addasu Stofa Pen Cefn heb amod gwella'r fynediad i'r safle cyn dechrau datblygu'r safle. Mae'r Cyngor wedi gwyno i Gyngor Gwynedd ac yn bwysu am farcio addas ar y priffyrdd.

PEN-BLWYDD PRIODAS. Llongyfarchiadau i Harriett a Roy Evans, 2 Tai Glangwna ar 30 mlynedd o briodas.

PEL-DROEDIWR O FRI.

Llongyfarchiadau i Gareth Griffiths ar gael ei le yn nhim cyntaf Traff Caernarfon yn Uwch Gynghrair Cymru yn ddiweddar.

CLWB Y MERCHED. Trefnwyd Helfa Drysor gan Deiniol a Marian Tŷ Mawr ar gyfer cyfarfod mis Mehefin a chafwyd noson hwyliog, heb i neb fynd ar goll! Roedd y marciau yn agos iawn a dim ond o drwch blewyn y llwyddodd Nan, Vera, Mary a Doris i gyrraedd y brig. Rhoddwyd gwobr i'r enillwyr gan Mrs Doris Mulhenfeld. Cafodd rhywrai lwy bren hefyd ond cyfrinach y clwb ydi hynny. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Heather Jones a Mrs Catrin Jones, Erw Wen fu'n lwcus i'w hennill. Cafwyd lluniaeth ysgafn yn Bryn Gwna i orffen y noson a thrafod yr helfa.

Bydd gan y clwb stondin yn y 'Miri Haf' a gynhelir ar ddydd Sadwrn, 19 Gorffennaf a bydd Meinir, Jill a Llio yn falch o dderbyn unrhyw gyfraniadau o gynnyrch tŷ a gardd.

Ar ôl yr haf bydd y clwb yn cyfarfod ar 25 Medi am 8 o'r gloch

yn Bryn Gwna i drafod ac i lunio rhaglen ar gyfer 2003/04. Croeso i unrhyw aelod newydd.

TAFARN BRYNGWNA. Bedair blynedd a hanner yn ôl roedd pren dros ffenestri tafarn y pentref ond, o dan berchnogaeth Brenda a Willie Anderson, daeth Bryngwna i fod yn ganolbwynt cymdeithasu a chiniawa Caeathro. Rwan, maent wedi mudo i'r Alban, i bentref genedigol Willie - Hopeman. Yn eu lle, craesawn Valerie Bee a'i hefeilliad, Adam a Craig.

DOSBARTHU'R ECO. Ar ôl cyfnod o 5 mlynedd yn y swydd, mae Marian Huws, Tŷ Mawr yn awyddus i ymddeol o'r cyfrifoldeb o ddosbarthu'r Eco yng nghanol y pentref. Pwy sydd am gyfle i ddod i adnabod y pentref a'i drigolion yn well?

AGORIAD CANOLFAN Y CAPEL. Bydd Canolfan y Capel yn cael ei hagor am 2.00 y pŵn dydd Sul, 19 Hydref. Bydd manylion llawnach maes o law.

ORGAN AR WERTH. Oherwydd y pryniant o organ newydd mae gan Capel Caeathro organ dros ben sydd angen cartref da; boed gapel, eglwys, ysgol neu eiddo preifat. Gellir archwilio'r offeren trwy gysylltu ag Ifor Hughes, Lleifior. (674342).

PEN-BLWYDD HAPUS.

Llongyfarchiadau i Dafydd Iwan, Rhos Bach ar ei ben-blwydd yn 60 yn ddiweddar.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Gorffennaf oedd:

£40: (40) Arwel Griffiths, 4 Tai Glangwna; £25: (23) Beth Roberts, Morfa; £15: (79) Buddug Jones, Carreglwyd; £5: (70) Elfyn Roberts, 10 Erw Wen.

R A S Y R W Y D D F A .

Llongyfarchiadau i Jayne Lloyd. Bodawel am gael y bedwaredd safle yn Adran y Merched. Ras yr Wyddfa gyda'i hamser agosaf??? i'r enillydd hyd yma.

PEN-BLWYDD. Yn ddiweddar bu i Vera Roberts, 10 Erw Wen ddathlu ei phen-blwydd yn 50 oed.

CYNGOR CYMUNED.

Cynhaliwyd cyfarfod o'r Cyngor ar nos Fercher, 30 Gorffennaf. Roedd y Cyng Clive James yn bresennol ac roedd ymddiheuriad gan y Cyng Vera Roberts. Am y chweched cyfarfod yn olynol nid oedd Cyngor Gwynedd wedi gweithredu ar y 5 cwyn yng Nghaeathro.

Adroddwyd fod posibl i berchnogion cŵn brynu 'pooper scoops' yn sloop Poundstretchers yng Nghaernarfon.

LLYFR NEWYDD. Gellir darllen holl waith barddonol y diweddar T. Arfon Williams, Y Wern, yn *Englynion a Cherddi T. Arfon Williams*, Cyhoeddiadau Barddas am £12.00 neu ei fenthyca o Lyfrgell Caernarfon.

GWASANAETHAU'R CAPEL.

Bydd y gwasanaethau canlynol yn cael eu cynnal yn ystod mis Medi:

7 10.00: Richard Lloyd Jones

11.00 Ysgol Sul

14 11.00 Ysgol Sul

21 10.00 Dafydd Iwan

(Gwasanaeth Teuluol)

28 11.00 Ysgol Sul.

Bydd croeso mawr i bawb ymuno â'r mawl a'r hwyl.

TYNFA MISOL. Enillwyr mis Awst

oedd: £40: (2) Olga a Peter Evison, Cae Hopcyn; £25: (23) Beth Roberts, Morfa; £15: (48) Wil Hughes, Cefn Gwern; £5: (40) Arwel Griffiths, 4 Tai Glangwna.


RAFFL PENCAMPWRAIG IFANC

Yn y llun uchod gweler y Cynghorydd Gwilym Owen Williams o'r Waunfawr a drefnodd raffl ar gyfer codi arian i hybu gyrfa judo Hannah Medi Hughes o Gaeathro. Mae teulu Hannah yn ddiolchgar iawn i Mr Williams a hefyd i bawb a gyfrannodd wobrau i'r raffl. Diolch hefyd i bawb lleol a gefnogodd y fenter a fu yn gymaint o lwyddiant.

Mae Hannah yn aelod o dîm judo Cymru. Hi yw'r ferch gyntaf

erioed o Ogledd Cymru i gynrychioli Prydain Fawr. Bu'n llwyddiannus yn gwneud hyn mewn cystadleuaeth ryngwladol yn Lommel, Gwlad Belg eleni a hithau ddim ond yn ddeuddeg oed.

Yr enillwyr oedd: £100: Dafydd (Gong), Caeathro; £100: Ffion Jones, Caernarfon; Taleb £50: Tecwyn, Llanrug; Game Boy: Stephen Speedy; Gwasanaeth car: Jane, Bangor; Pryd i 2 yn Llandwrog: L. Jones, Llanrug; Llun: Karen Jones, Dinas; Gwin: Emyr Williams, Groeslon; Pryd i 2 yn y Black Boy: W. Moore, Penmaenmawr; Doli yn siarad: H. Evans, Gwalia, Caeathro; Taleb Safeways: Mrs Morris, Hendre.



Gwnaethpwyd y gacen gan Liz Williams, Bryn Beddau, Waunfawr.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

Camera yn ngofal John Pritchard, Cilfynydd, Llanberis. Ffôn: 872390

CÔR MEIBRION DYFFRYN PERIS Ar 18 Gorffennaf cymerodd y Côr ran mewn cyngerdd yn Elgwys Santes Fair Caernarfon i ddathlu yr efeillio rhwng tref Caernarfon a Landernau yn Llydaw. Gofynnwyd i'r côr gymryd rhan oherwydd eu hymweliad ac ardal Landernau yn 1999.

Ymhlith y llu artistiaid eraill a gymerodd ran roedd nifer o ieuenctid lleol, sydd yn cael eu hyfforddi yng Nghanolfan William Mathias Caernarfon, ynghyd ag offerynwyr traddodiadol Llydawig.

Arweinwyd y noson gan Elinor Bennet Wigley.

HELFA DRYSOR. Cynhaliwyd Helfa Drysor yn Llanberis nos Fercher, 9 Mehefin a gwnaed elw o £143, a gaiff ei rannu rhwng 'Tear Fund' a Chronfa Adnoddau Capel Coch.

Cafwyd noson llawn hwyl a sbri. Llongyfarchiadau i'r enillwyr, Gareth Jones ac Ann Hughes a'u mam, Mrs Joyce Jones. Cyflwynwyd plât arian iddynt am yr ymdrech wych. Cyflwynwyd llwy bren fel 'bwbi' i 'Driawd y Buarth'!

Diolch yn fawr i Miss Dilys Mai Roberts a Mrs Dilys Jones, Penisarwaun am drefnu'r Helfa, y raffl ayyb. Diolch eleni eto i Mrs Vivienne Thomas a'r teulu am

drefnu'r lluniaeth blasus a chael defnydd o Glwb Cymdeithasol Llanberis ar y noson.

Diolch i bawb a gyfrannodd hefyd at y gwobrau ac i bawb a gymerodd ran i wneud y noson mor llwyddiannus.

Diolch arbennig i'r Parch John Pritchard am lywyddu y noson a rhoi y diolchiadau yn ei ffordd hwyliog ei hun.

DYMUNA teulu y diweddar Hugh Richard Jones, 13 Stryd y Ffynnon ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu colled fawr. Hefyd am y llu cardiau a rhoddion oedd yn mynd er cof i Tŷ Gobaith yn y Gogledd. Casglwyd £1,245. Diolch yn fawr iawn i bawb.

MYNWENT EGLWYS SANT PERIS. Yn dilyn archwiliad dan reolau lechyd a Diogelwch, darganfuwyd sawl bedd mewn cyflwr peryglus. Tynnir sylw perthnasau y rhai a gladdwyd yno mai eu cyfrifoldeb hwy yw cadw y beddau mewn trefn. Gweler rhestr o'r beddau anniogel ar adwy'r fynwent neu yn eglwys Sant Peris a Sant Padarn. Am fanylion pellach cysylltir â'r Barch Vittoria Hancock, Tŷ Sant Padarn, Y Rheithordy, Llanberis (872691).

CWM Y GLO

Mrs Iris Rowlands, Glanrafon. Ffôn: (01286) 872275

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYNRADD

Ddiwedd mis Mai, bydd chwech o blant yr ysgol yn cynrychioli Sir Eryri yng nghystadleuaeth Dawnsio Gwerin o dan 12 oed. Pob dymuniad da i Anest, Lauren, Amy, Dewi, Gethin a David yn Abertawe, gan obeithio'n fawr y gwnant fwynhau y profiad.

Mae gennym le mawr i ddiolch i deuluoedd a ffrindiau eto eleni am gasglu talebau Tesco. Daeth bron i 8,000 i law sef dwbl ein targed. Byddwn yn gallu cyfnwio rhain am ddau argraffydd.

Ar ddiwedd tymor y Pasg cafodd aelodau'r Urdd noson werth chweil yn Antur Waunfawr. Trefnwyd Helfa Wyau ar eu cyfer gan Mr. Dafydd Arfon Jones a chafwyd hwyl fawr yn mynd o gwmpas y gerddi yn chwilio am rhain. Diolch Mr. Jones am noson ddifyr iawn i gloi gweithgareddau yr Urdd am eleni.

Mwynhaodd plant B1. 3 a 4 ddiwrnod arbennig o ddiddorol yng nghwmni Llinos o Blas Tan y Bwlch. Trefnwyd taith gerdded ganddi i fyny at Lyn Llydaw ac yna ymlaen at Lyn Glaslyn. Gwnaed gwaith map a chyfeirio fel rhan o'u gwaith ar yr ardal leol. Dychwelodd pob un adref yn ddiogel ond yn dra blinedig.

Aeth plant yr Adran Iau i Lanystumdwy i Anmgueddfa Lloyd George fel rhan o ddathliadau'r Pasg. Cawsant flas ar fywyd cartref ac ysgol yn y cyfnod a buont o gwmpas yr ardd yn clapio am wyau fel yr oedd yr hen arfer.

Aeth gwobrau clwb yr ysgol am fis Mawrth i Hayley Griffith, Bryn Crwn Cottage; Gwion Llwyd, Ystrad, Llanrug a Mrs. Margaret Williams, Bryn, Cwm y Glo. Yna ym mis Ebrill y tri lwcus

oedd Mrs. Margaret Williams, Bryn (eto!) Miss Meira Williams, Goleufryn, Cwm y Glo a Cai Glyn Oliver o Gors, Penisa'rwaun.

Llongyfarchiadau mawr i chwi a diolch am eich cefnogaeth i ni.

Cawsom wledd addysgol ddechrau mis Mai yng nghwmni Mark Griffiths. Fel ysgol sy'n rhan o brosiect Hybu Iechyd fe ymwelodd â ni gyda nifer o'i ffrindiau mewn bag! Defnyddiodd y pypedau hyn i ddangos i ni pa mor arbennig ydy pob un ohonom mewn rhyw ffordd neu'i gilydd. Roedd llond neuadd o blant yn chwerthin o waelod eu boliau drwy'r perfformiad dawnus yma - ac eto, fe aeth y wers adref. Gwnaeth i bob un ohonom deimlo fod gennym gyfraniad pwysig a gwerthfawr i'w wneud mewn bywyd, dim ots pa mor fawr neu pa mor tychan fo hynny.

Cafodd plant B1. 5 a 6 gyfle i ddilyn cwrs beicio diogel gyda Mr. Alan Bevan o Heddlu Gwynedd. Diolch yn fawr iddo ef a llongyfarchiadau i bawb am fod yn llwyddiannus.

DIOLCH. Dymuna Avril Jones, Glan-y-Don ddiolch o galon i Gymdeithas Rhieni ac Athrawon Ysgol Cwm-y-glo; i Mrs Mair Huws y brifathrawes ac i staff yr ysgol am yr anrheg a'r blodau a dderbyniodd ar ddiwedd y tymor fel gwerthfawrogiad am ei gwaith ar hyd y blynyddoedd ar Fwrdd Llywodraethwyr yr ysgol. DIOLCH. Dymuna Wyn Rowlands, Glanrafon ddiolch yn ddiffuant i bawb am bob arwydd o garedigrwydd a dderbyniodd tra yn Ysbyty Gwynedd ac ar ôl dod adref.

LLONGYFARCHIADAU i Jennifer a Robert, 4 Dôl Afon ar enedigaeth gefeilliaid, Robert a

Keith, brodyr bach i Elliw. LLONGYFARCHIADAU i Carys, Glan-y-Don ar ei llwyddiant yn ei arholiadau Lefel A. Pob dymuniad da i ti i'r dyfodol, Carys.

CYDYMDEIMLAD. Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â theulu Mr Len Pritchard, 6 Dôl Afon.

GWELLHAD BUAN. Dymunwn wellhad llwyr a buan i Keith, Bryn ar ôl syrthio a thorri ei fraich.

CYMDEITHAS RHEINI AC ATHRAWON YR YSGOL.

Cynhaliwyd noson Ffair Haf/Sêl Cists Car yn yr ysgol ar 20 Mehefin. Roedd yn noson lwyddiannus dros ben. Diolch yn fawr iawn i bawb am gefnogi ac hefyd am y rhoddion at y raffl fawr. Yr enillwyr oedd:

£50: 673767; £35: Morus a

Gruffydd; £15: Leon, Brynrefail; Tocyn Teulu Gelli Gyffwrdd; Marc, Llys Eiddon. Tocynnau i Sinema Apollo: Nia Oliver; Pryd o Fwyd yn yr Anglesey Arms: 872281; Tocyn i'r Hwylfan: 871394; Gwin: Pat Sellars; Gwin: 870544; Gwin: 870261; Gwin: Olga Williams; Gwin: Jill, Tŷ Capel; Potel Babycham: A. Williams; Potel Babycham: 870674; Potel Sherry: 872249; Potel Chwisgi: 673506; Pot Blodyn: D. Warner; Hamper Melysion: 13 Dôl Afon; Tegan Action Man: 672300; Siocledi: Anti Annabel; Siocledi: Peter.

Dymunir Pob lwc i ddisgyblion Blwyddyn 6: Dewi, Siôn Arfon, Siôn Idwal, Siôn Lloyd, Bob, Anest, Rhian a Lauren sydd yn cychwyn yn Ysgol Brynrefail ym mis Medi.



Mrs Avril Jones yn cyflwyno siec gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon i Mrs Mair Lloyd Jones, y pennaeth a Mrs Anita Long sy'n Llywodraethwraig Ysgol Cwm-y-glo.

Mae ffermwyr yng Nghymru yn gymwys i gael hyfforddiant cyfrifiadurol AM DDIM

- Ydych chi'n ffermio neu oes gennych chi gysylltiad agos hefo'r busnes ffermio?
- Hoffech chi wneud defnydd effeithiol gyfrifiadurol i wella effeithlonrwydd eich busnes?
- Hoffech chi dderbyn hyfforddiant hyblyg mewn rhaglenni cyfrifiadurol penodol ar gyfer y fferm?

Os hoffech chi gymryd mantais o'r cyfle unigryw yma a chael hyfforddiant gyfrifiadurol **RHAD AC AM DDIM**

cysylltwch â

Gwyn Owen yng Ngholeg Menai **RWAN**

ar **(01248) 753924**



Caban y Cwm, Menter Fachwen yn dathlu ennill cystadleuaeth Bwydlen Ddwyieithog y Mis, Bwrdd yr Iaith Gymraeg.

LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

DYMUNA Olive a Derek, 16 Bro Rhyddallt gynt ddiolch o galon am bob arwydd o gydymdeimlad a gawsant ar ôl marwolaeth eu mam, Sydney Humphreys, yn ddiweddar.

MARWOLAETHAU.

Yn ddiweddar daeth y newydd fod Mr George Lovett, gynt o Lanrug, wedi marw yn Aberystwyth. Estynnwn ein cydymdeimlad â'r teulu i gyd.

Bu farw Mr Llew Evans, Garnet, Lôn Groes, yn 60 oed. Anfonwn ein cydymdeimlad at y teulu i gyd.

Hefyd, Mrs Owen, 2 Glanmoelyn, gynt. Bu farw yn Ysbyty Bryn Seiont wedi gwaelled hir. Mi fydd colled fawr i'w gŵr, y plant a'r wyrion a'r wyresau.

PRIODAS. Llongyfarchiadau mawr i Menna Jones, Pantmwyn ar ei phriodas gydag Al yn ddiweddar. Mae'r cwpwl yn byw yn Llundain.

Priodwyd Bedwyr Evans, Penisarwaun a Lisa yn Eglwys Sant Mihangel, Llanrug. Maent wedi ymgartrefu yng Nghorlan y Rhos. Pob dymuniad da i chi i gyd. **DIOLCHIAU.** Dymuna Mrs Jennie Hughes, 17 Hafan Elan, ddiolch i'r teulu a ffrindiau am eu gofal a'u dymuniadau gorau tra y bu yn Ysbyty Gwynedd ac Eryri yn ddiweddar. Diolch yn fawr am y cardiau lu a'r blodau.

BABIS NEWYDD.

Llongyfarchiadau mawr i Nerys a Dilwyn, Stad Minffordd ar enedigaeth Huw Alun, ŵyr bach newydd i Alun a Diane Powell, Bryn Moelyn.

Cafodd Robin ac Anna Whiteside Thomas frawd bach newydd, sef Guto. Llongyfarchiadau mawr i Dyfed a Rhian.

Llongyfarchiadau i Hugh ac Eirlys Williams, Ffordd Glanffynnon ar ddod yn daid a nain. Ganwyd mab bach, Dion Wyn, i Eleri.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr ar ddathlu eich pen-blwydd, Pyrs, yn 80 oed. Beth yw'r gyfrinach am edrych mor dda - ai Kath tybed?

TYMOR NEWYDD. Bydd tymor newydd yr ysgolion a cholegau wedi cychwyn erbyn hyn. Dymunwn bob llwyddiant i'r plant a'r bobl ifanc.

MARWOLAETH. Bu farw Mrs Sydney Humphreys, 16 Bro Rhyddallt gynt, yng Nghartref Plas y Coed, Bangor ar 5 Awst yn 85 oed. Cydymdeimlwn â'r teulu, Derek ac Olive yn arbennig. **DYMUNIAU GORAU** am wellhad bwan i Mrs Maggie Lewis, Madryn. Mae wedi dod dref ar ôl tymor yn yr ysbyty ac yn awr yn Ysbyty Fawr gyda'r teulu. Braf eich gweld o gwmpas eto.

Deallir fod sawl person arall yn y pentref yn cwyno. Anfonwn ein dymuniadau gorau i chi i gyd.

LLONGYFARCHIAU. Pob dymuniad da am hir oes gyda'ch gilydd i Maureen ac Alun Pierce, Artmor, Bryn Moelyn. Priodwyd y

ddau ar 12 Gorffennaf yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.

DIOLCH. Dymuna Mrs Maggie Lewis ddiolch o galon am yr holl garedigrwydd a'r gofal a dderbyniodd dros yr wythnosau diwethaf - i Dr Roberts a'i staff; i hogia'r ambiwlans; i nyrsus Ysbyty Gwynedd ac Eryri, ac yn arbennig i'r plant a'u teuluoedd am eu gofal a'u fyddlondeb.

DIOLCH. Dymuna Mr J. P. Jones (Pyrs), Bro Rhuddallt, ddiolch i bawb am eu caredigrwydd a'u dymuniadau da ar achlysur dathlu ei benblwydd yn 80 oed yn ystod yr haf.

DIOLCH. Dymuna Rhian a Dyfed ddiolch i bawb am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur geni Guto Whiteside Thomas ar 14 Gorffennaf.

TAITH BEICS NODDEDIG. Fel y daw'r rhifyn hwn o'r Wasg, bydd Dyfed a Dafydd Whiteside Thomas yn dychwelyd o'u taith beics noddedig o Lundain i Baris. Ceir adroddiad llawn am y fenter yn y rhifyn nesaf. Yn y cyfamser, diolch i bawb am ein noddi, ac i siopau Londis, Wavell ac Elaine am ganiatáu gosod blychau casglu ar eu heiddo. Hyd yn hyn, casglwyd dros £1,000 tuag at gronfa ymchwil i'r afiechyd Myasthenia Gravis.

PLAID CYMRU. Ym mis Medi yn y flwyddyn 1400 y cyhoeddwyd Owain Glyndŵr gan ei ddilynwr yn Dywysog Cymru, ac y dechreuodd ei wrthryfel yn erbyn Lloegr. Er mai Medi 16 yw'r dyddiad a gysylltir â'i enw, bydd Cangen Llanrug o Blaid Cymru eleni yn dathlu'r diwrnod nos Fercher, MEDI 17, a hynny gyda darlith ar Owain Glyndŵr gan yr hanesydd adnabyddus, Bob Morris, sy'n ddarlithydd ym Mhrifysgol Cymru Bangor ac yn ymddangos yn aml ar deledu Cymru. Cynhelir y cyfarfod yn y Sefydliad Coffa, Llanrug am 7.30 o'r gloch ac mae gwahoddiad cynnes yno i bawb sydd â diddordeb yn hanes Cymru.

LLONGYFARCHIAU i Hanna Wyn Williams, Treflan ar basio arholiad Gradd 3 ar y 11fed dydd Anrhydedd. Hefyd i'w brawd, Morys, ar basio arholiad gradd 3

ar y sacsaffôn gyda theilyngdod. Da iawn eich dau!

YSGOL GYNRADD.

Dymunwn yn dda i Anti Glenda, sydd wedi gadael ei gwaith yng nghegin yr ysgol er mwyn cael treulio amser gyda'i hwyres fach. Croeso i Anti Eira i weithio i'r gegin.

Dymunwn longyfarch Anti Maureen, gweinyddes yn y dosbarth Meithrin ar ei phriodas gydag Alun. Mrs Pierce fydd hi rwan.

FFAIR HAF

Fe ategodd cynhesrwydd yr haul at hwyl y 'Noson i'r Teulu' a gynhaliwyd ar fuarth yr ysgol ddiwedd tymor yr haf. Daeth amryw o 'gymeriadau enwog' i gystadlu yn y gystadleuaeth gwisg ffansi, ras pram a'r mabolgampau. Pob un angen ci poeth a phaned o'r gegin i adennill eu hegni ar ôl cystadlu mor frwd. Yna, wedi'r miri, tawelodd y dorf i wrando ar y cystadlaethau carioci, a'r grŵp Epitaff yn ein diddanu. Diolch iddynt am ddod atom a diolch i bawb am gefnogi'r noson.

AROS YN RHYD-DDU

Bydd disgyblion Bl 3 yn edrych ymlaen i gael treulio cyfnod yn Rhyd-ddu eto yn ystod eu gyrfa yn

yr ysgol. Mwynhaodd pob un ohonynt y profiad o gael aros yno am ddeuddydd.

CROESO

Croesawn ddwy athrawes atom i'r ysgol. Bydd Miss Clare Burgess o Fethesda a Miss Llinos Williams o Gaernarfon yn gweithio gyda disgyblion cyfnod allweddol un.

Rwy'n siŵr y byddwch yn hapus yn ein plith.

LLONGYFARCH

Anfonwn ein llongyfarchiadau at Donna Jane o Rostryfan, a fu yma am gyfnod gyda ni yn weinyddes, ar enedigaeth mab bychan, Cynan Llŷr.

YR WYAU YN DEOR


Roedd cynnwrf mawr ymysg plant y dosbarthiadau Babanod a'r ysgol i gyd pan ddeorodd tri ar ddeg o gywion bach o'r wyau yn y ddeorfa drydan yn y Dosbarth Derbyn.

Bydd y tymor yn cychwyn ar 2 Medi i'r disgyblion.

LLONGYFARCHIAU i'r ddwy chwaer o Glan Gors: Ceri Meredydd ar ei llwyddiant yn yr Arholiadau TGAU a Gradd 5 Chwarae'r Piano ac i Elin Haf ar lwyddo yng Ngradd 1.

Daliwch ati genod.

Nain a Taid Minffordd



CHIROPODIST
Gwasanaeth
yn eich cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.

57 Glanffynnon
LLANRUG
Ffôn:
(01286) 675754



CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: **(01286) 879064** • Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd
Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

MERCHED Y WAWR. Cynhelir cyfarfod cyntaf y gangen yn y ganolfan ar 9 Medi am 7.30. Bydd y wraig wadd, Mrs Margaret Jones, Tregarth yn dangos sut i beintio ar sidan a gofynnir i'r aelodau ddod â ffedog neu ddilledyn addas gyda hwy. Byddwn yn falch o groesawu aelodau newydd.

DYMUNA Mrs Ann Jones, 20 Hafan Elan ddiolch i'w chymdogion a'i ffrindiau am y cardiau, rhoddion a'r galwadau ffôn, ac i bawb a ddaeth i ymweld â hi tra yn Ysbyty Gwynedd yn ddiweddar.

DYMUNA Alun a Maureen, 14 Bryn Moelyn ddiolch i'r teulu a ffrindiau oll am y llu cardiau, anrhegion ac arian a dderbyniwyd ganddynt ar achlysur ei phriodas. Hefyd diolch i'w ffrindiau am wneud y diwrnod yn un arbennig iawn.

Y BAND. Bydd Band Llanrug yn cystadlu ym Mhencampwriaeth Bandiau Pres Prydain Fawr ar 21 Medi yn Dundee. Er mwyn casglu arian ar gyfer y trip bydd Ocsiwn yn cael ei chynnal yn Nhafarn y Penbont ar nos Wener, 12 Medi am 7.30. Eitemau i'w gwerthu gan Dafydd Hardy.

Bydd cyngerdd yn cael ei gynnal yn Eglwys Farmor Bodolwyddan gyda Chôr Meibion Betws yn Rhos nos Sul, 7 Medi am 8.00 o'r gloch. Ticedi £5.

Hefyd bydd y band yn cymryd rhan mewn Noson Lawen yn Stiwdio Barcud, Caernarfon ar 18 Medi am 7.30 o'r gloch. Ticedi £4.00/£2.00 gan Berwyn Owen ar (01286) 678161. A bydd cyfle i weld y band ar y teledu mewn rhai misoedd gan fod y BBC ar hyn o bryd yn dilyn y seindorf - a'u cwest i ennill Pencampwriaeth Prydain - ar gyfer rhaglen ddogfen.

GWAHODDIAD. Carwn estyn gwahoddiad i chwi ymuno â changen Merched y Wawr Llanrug. Rydym yn cyfarfod nos Fawrth am 7.30 o'r gloch, 9 Medi 2003 yn y Sefydliad Coffa.

Os hoffech ragor o wybodaeth wrthydd i chwi gysylltu â Gwenda Roberts (675649) neu Meirwen Lloyd (075000).

DYMUNA Nancy Lovatt (gynt o Brwynog, Llanrug) a theulu'r diweddar George Lovatt fynegi diolch diffuant am bob arwydd o gydymdeimlad, trwy lythyr, cerdyn a ffôn a estynnwyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod, tad a thaid annwyl. Diolch hefyd am y rhoddion hael a ddaeth i law tuag at 'Under One Roof', Ysbyty Bronglais. Derbyniwyd cyfanswm o £820.



Priodas Menna Jones a Al Mackintosh.



Priodas Alun a Maureen.

**Cefnogwch
ein
hysbysebwyd**

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES
GARTH MAELOG
51 Stryd Fawr, Llanberis
Ffôn: **870840**

CEUNANT

LLWYDDIANT EISTEDDDFOD MEIFOD. Llongyfarchiadau i Caron Williams, Fuches Las, Ceunant ar ennill yr ail wobwr yn yr Unawd Piano yn y gystadleuaeth 12-16 oed. Mae Caron yn ddisgybl i Iwan Llewelyn Jones. Da iawn ti.

TAD A MERCH YN ENNILL GRADD! Llongyfarchiadau i Dennis a Llinos Jones, Rhos y Grug, Ceunant ar ennill gradd yn ddiweddar - roedd Llinos yn astudio ym Mhrifysgol Bangor a Dennis yn astudio yng Ngholeg Mancat, Manceinion.

Pob hwyl i Ffion Jones, Rhos y Grug a fydd yn dilyn cwrs ym maes y Cyfryngau mewn Coleg yn Sir Derby ym mis Medi.


BARA CAWS

Bydd Bara Caws
yng
Ngwesty'r Dolbadarn
yn perfformio

RHYCH WLYB

nos Wener
Medi 19 a 20
am 7.30 o'r gloch

Mae'n rhaid i mi siarad
hefo rhywun



Pryd i Bawb
*Bawbe blasus o safon
at bob achlysur*

Priodas

Parti

Te Angladdau

Cinio Busnes

CERID MACKINNON

*Plas Tirion, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4PZ
(01286) 673190*



PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

YR YSGOL GYMUNED. Dyma bedwar o ddisgyblion Bl. 6 sy'n trosglwyddo i Ysgol Brynrefail. Cawsant eu cyflwyno â thlysau, anrhegion a gwobrau ar ddiwedd y tymor. Cyflwynwyd rhodd Selwyn Griffith i Mr Griffith am ei gefnogaeth a'i garedigrwydd eto eleni.

Daeth Ynyr a'i frawd, Eurig, aelodau o'r grŵp Epitaff, gyda Dynamic ar ddiwedd y tymor i ddiddanu'r plant yn yr haul. Cafwyd amser ardderchog. Braf oedd cael croesawu hen ffrindiau a chyn-ddisgyblion unwaith eto. Diolchir am fore pleserus iawn. Brysiwch yma eto.

YSGOL SUL BOSRA.. Diolchir i'r plant a'u hathrawon am eu cyfraniadau yn y ddwy Gymanfa eto eleni. Diolchir hefyd i'r rheini am eu hanogaeth a'u cefnogaeth. Cafwyd Gwasanaeth bendithiol iawn bnawn Sul, 29 Mehefin yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen. Bu plant Ysgolion Sul Cylch Deiniolen a Chwm-y-glo yn cymryd rhan yn Sul y Beiblau a chafwyd gwasanaeth hyfryd dan arweiniad Miss Jean Parc Jones. I orffen y tymor fe fwynhaodd rhai o'r aelodau wahanol weithgareddau yn Sbrî'r Ysgol Sul yn Ysgol Brynrefail ar bnawn Sul, 13 Gorffennaf.

Bydd yr Ysgol Sul yn ailgychwyn fore Sul, 7 Medi.

TRIP YR YSGOL SUL. Bu'n Sadwrn braf a phoeth i'r trip i Southport. Sadwrn 12 Gorffennaf. Gan fod digon o bethau at ddant pob oedran yno roedd pawb yn amlwg wedi mwynhau y diwrnod. Dymunir ddiolch i Elizabeth Jones ac Ann Patterson am wneud y trefniadau. **PWYLLGOR NEUADD BENTREF**

Tynnwyd Clwb Cant Gorffennaf a'r enillwyr oed: Richard Parry, Tawelfan; E. W. Jones, 3 Bryntirion; Sally Griffiths, 6 Bryntirion.

Atgoffir chi y cynhelir Ocsiwn Addewidion cyn y Nadolig a

byddwn yn dra diolchgar o unrhyw addewid.

LLONGYFARCHIADAU mawr i bawb ohonoch fu'n sefyll yr amrywiol arholiadau a phob dymuniad da i'r dyfodol.

Llongyferchir pawb o'r pentref fu'n llwyddiannus yn yr amrywiol sioeau amaethyddol. Mae bridwyr o fri yn y pentref bach yma.

POB LWC. Pob dymuniad da i Lisa a Bedwyr ar achlysur eu priodas ar 25 Gorffennaf. Fe wenodd yr haul ar y fodrwy ac roedd gwên ar wyneb Bedwyr a Lisa hefyd.

DIOLCH. Dymuna Lisa a Bedwyr ddiolch i'w teuluoedd, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion a gawsant ar achlysur eu priodas. Diolch o galon.

COLLED. Cydymdeimlir yn ddwys iawn ag Elinor, Elwyn, Dylan a Susan a'r teulu oll yn eu profedigaeth sydyn o golli brawd annwyl i Elinor.

Anfonwn ein cydymeimlad llwyrat hefyd at Bryn, Beryl, Gwenda a Selwyn a'r cysylltiadau oll yn eu profedigaeth o golli mam a nain annwyl, Irene Griffith, 7 Tal y Bont, Llanrug, gynt o Bryntirion.

GWELHHAD. Dymunir adferiad iechyd buan i bawb ohonoch sy'n teimlo'n sâl. Brysiwch wella i gyd. Ein cofion annwyl at Bryn Griffith sy'n derbyn triniaeth yn Lerpwl.

YMDDEOLIAD HAPUS a hamddenol yw'n dymuniad i Gwyn, Bod Fair wedi blynyddoedd o ddysgu yn Ysgol Syr Hugh Owen. Mwynha dy ymddeoliad, Gwyn.

GOFAL CANCR MARIE CURIE. Casglwyd £109.95 at yr elusen uchod yn y pentref. Diolch i bawb am eu cyfraniad haelionus.

DALIER SYLW

PLYGU'R ECO. Plygir rhifyn Hydref o'r Eco yn Neuadd Eglwys Santes Helen, **nos lau, 2 Hydref o 5.30 ymlaen.** Taer erfynnir am gymorth. Hyd yma yr un criw bychan sy'n trol i lynu a gellir gwneud hefo mwy o ddwylo gan



(Chwith i'r dde) Gruff, Robot, Andrew a Chris.



Ynyr a'r grŵp Epitaff a chyn-ddisgybl allan yn yr haul yn diddanu'r plant.

fod y plygu yn amharu ar gefnau rhai ohonom! Fel arfer byddwn wedi gorffen plygu erbyn 7.30, wedi dwy awr o blygu caled! Erfynnir am eich help - chwi oedolion ifanc a phobl ifanc, dowch i'n helpu. **PLIS.** Diolch o galon.

LLYS YR EISTEDDFOD. Yn ystod yr Eisteddfod Genedlaethol ym Meifod, fe etholwyd y Prifardd Selwyn Griffith yn aelod o Gyngor Llys yr Eisteddfod am dymor o dair blynedd

Elin fel Sant Christoffer. Sant y Teithwyr a Glesni fel y bachgen Iesu yn y ddwy Gymanfa. Anest Bryn oedd Sant Christoffer yng Ngwasanaeth Sul y Beiblau.



Magi yn mwynhau ei hun yn Sbrî'r Ysgol Sul yn Ysgol Brynrefail



TEYRNGEDAU

Colledion y Darans

Yn ystod yr haf collodd Y Darans, tîm pêl-droed Llanberis, ddau gyfaill a fu, yn eu gwahanol gyfnodau, mor ddylanwadol.

Yn dawel yng nghwmni ei denlu yn Ysbyty Gwynedd, bu farw William Wynn Davies neu Willie Wynn i'r ychydig gefnogwyr sy'n cofio tîm mawr y tridegau. Roedd yn 94 mlwydd oed. Dyma'r aelod ola' o'r tîm llwyddiannus hwnnw a enillodd Cwpan Iau Gogledd Cymru ddwy flynedd yn olynol. Daeth eu llwyddiant cyntaf yn nhymor 1934-35 pryd y bu iddynt drechu Llawryst o 1-0. Yna ar ddiwedd tymor 1935-36, llwyddasant i drechu Holywell St. James o 2-0. Arwr y dydd oedd Willie Wynn ac, yn ôl adroddiadau'r wasg 'roedd fel cawr yn amddiffynfa Llanberis'.

Ganwyd a magwyd William Wynn Davies yn Neiniolen. O'r dyddiau cynnar daeth y capel yn bwysig iddo a bu'n aelod ffyddlon yng Nghapel Disgwylfa. Pan symudodd i Bethel a phriodi Kate ymaelododd â Chapel yr

Annibynwyr Bethel. Yn ddiweddarach fe'i codwyd yn ddiagon yn y capel hwnnw. Yn ôl ei gyn-weinidogion a wasanaethodd yn ei angladd bu William Wynn yn gefn i bob un ohonynt, yn wrandawr praff ac yn gyfranwr parod i drafodaethau. Er mai'r capel oedd ei fywyd, byddai bob amser yn hapus yn siarad am bêl-droed, yn arbennig felly ei gyfnod fel un o arwyr Y Darans.

Chwarelwr ydoedd, ac yn falch o hynny. Bu cau chwarel Dinorwig yn ddipyn o ergyd iddo. Er iddo gael gwaith yn Ffatri Ferodo cofiaf ef yn dweud wrthyf y teimlai yn aml fel rhyw 'sgodyn allan o ddŵr' yn y fan honno. Dyn y garreg las oedd Willie Wynn, carreg a nodwedda'i ei ddawn fel pêl-droediwr - solat a chaled. Collai gymdeithas glos Chwarel Dinorwig.

Rhoddyd i orffwys ym mynwent Llanddeiniolen. Cwsg hen arwr, a gwyn dy fyd.

Fel cefnogwyr brwd Y Darans estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â Derrick a Haydn a'u teuluoedd yn eu colled.



Arwel Jones, Llywydd Clwb Pêl-droed Llanberis yn diolch i T.J. Roberts (Twm John) ar y chwith a'r diweddar Arfon Phillips am oes o wasanaeth i'r Darans.

Syfrdanwyd yr ardal pan gyhoeddwyd marwolaeth ddisyfyd Arfon Phillips. Dyma un o golofnau'r sefydliad pêl-droed yn Llanberis. Ynghyd â'i ffrind T.J. Roberts, dyma'r ddau a ffurfiodd asgwrn cefn Y Darans. Nid yn unig yr oedd Arfon yn drysorydd y clwb, ond ef a Twm fyddai'n trin a chaboli'r cae a glanhau a thrwsio'r ystafelloedd newid bob wythnos. Nid gorchwyl hawdd yng nghanol trymder gaeaf, hyd yn oed i laslanciau heini a chryfion.

Llafur cariad oedd llafur Arfon. Cyflawnai ei ddyletswyddau bob amser yn ddirwgnach. Braint iddo ef oedd gwasanaethu'r Darans. Ymfalchiai yn ei waith o baratoi y cae ar gyfer gêm gartref. Ymledai gwên foddhaol dros wyneb yr hogyn o Nant a deuai sbarc i'w lygaid bob tro y clywai rhywun yn dweud ar b'nawn Sadwrn, 'Yr hen gae ma'n edrach yn dda heddiw!' Dyna'i wob'r - dyna gydnabod ei waith calcd dros ddyddiau'r wythnos. Ni fynai fwy. Ond gwgai bob tro y byddai'r clwb yn derbyn dirwy oherwydd ymddygiad ambell chwaraewr. Casai dalu allan yn ddianghenraid - greddf pob trysorydd da!

Mecanic ceir o'r radd flaenaf oedd Arfon a threuliodd ran helaeth o'i oes yn gweithio yn Garej Wil Davies. Ar ôl i'w icchyd dorri bu'n rhaid iddo roi'r gorau i'w waith fel mecanic - ond ni fynnai fod yn segur. Fe'i apwyntiwyd fel arolygydd cadw safonau gyda High Speed Plastics yn Llandygai. Swydd ddelfrydol, yn ôl Y Parchedig Philip Hughes a dalodd deyrnged ddiffuant iddo yn yr angladd, i weithiwr calcd a ymhyfrydai mewn gwaith caboledig bob amser.

Bu colli Dilys, ei briod, yn ergyd drom i Arfon, ond ni fynnai ymneilltuo i'r gornel. Treuliodd ei ddyddiau yn

cynorthwyo eraill yn ei gymdogaeth. Mynodd y gymdogaeth yn ei thro gydnabod ei gymwynasau diri, a hynny yn gyhoeddus, trwy ei enwebu, ynghyd â Twm John ar raglen Tonfedd/Eryri. Fu rhaglen erioed hefo teitl mwy addas, a chyda'n gilydd fel cefnogwyr Y Darans gallwn atseinio ag un llais - DIOLCH O GALON Arfon.

Ar aelwydydd John a Dilys y teimlir miniogrwydd y golled fwyaf. Cydymdeimlwn fel clwb a chymdogaeth â hwy yn eu profedigaeth.



Richard Morris Hughes, 42 Bro Rhos, Bethel a fu farw yn frawychus o sydyn ar 26 Mehefin 2003 yn 57 mlwydd oed.

Dic Ysgol Yrru Bethel oedd o i bawb o'i ffrindiau. Bu'n berchennog Ysgol Yrru Bethel am bymtheng mlynedd. Y bore Iau hwnnw, bore angladd Dic, a'r capel yn llawn, diolchodd y Parchedig Wyn Roberts am yr anrhydedd o gael traddodi ychydig eiriau o deyrnged a dathlu bywyd Dic - y ffrind y cawsom ni'r fraint o'i adnabod.

'Y bore yma,' meddai, 'derbyniais y neges yma gan un o ddisgyblion diolchgar Dic.

"Y mae'r person sy'n eich dysgu chi ddreifio ymhlith y pwysicaf yn eich bywyd. Wedi'r cyfan, y person hwnnw yw'r un sy'n rhoi i chi eich annibyniaeth a'r rhyddid i grwydro pa le bynnag y mynnwch, a pha bryd y dymunwch - a'r person hwnnw hefyd yw'r un sy'n gosod seiliau at gyfer eich diogelwch chi ar y ffordd fawr, weddill eich bywyd."

Mac dysgu dreifio yn un o gamau mawr bywyd. Mac'n orchest sy'n gofyn am gryn dipyn o ymddiriedaeth, ar y naill ochr a'r llall. Ymddiriedaeth ar ran y disgybl, i fod yn ddigon mentrus i afael yn y llyw am y tro cyntaf yn ôl cyfarwyddid yr athro, ac ymddiriedaeth di-fesuradwy ar ran yr athro, i ganiatáu'r glas-yrrwr petrusaf ei dywys yn igam-ogam ar hyd ffyrdd a phriffyrdd y wlad.

Ic, mae'r broses o ddysgu dreifio yn broses sy'n gofyn am hir amynedd, hir ddyfalbarhad a synnwyr digrifwch heb ei ail,



Tîm Llanberis 1934-35. Enillwyr Cwpan Penrhyn, Alves a'r Iau. Hefyd Pencampwyr y Gynghrair. Y chwaraewyr, yn sefyll (chwith i'r dde): Wil Griffith (Padarn Road); Gwilym Jones (y cigydd); Wili Wynne, William Williams (Penny); John Glyn Jones. Yn eistedd: Dafydd (Jane Ann); D.J. Roberts (Dafydd Taff); Dafydd (Annie Dora); Arthur Roberts

(Bangor). Yn eistedd ar y llawr: E.H. Williams (Ianto); Rol Bach. Aelodau'r Pwyllgor: John Williams, Robin Angel, Dan Roberts (Robes), John Roberts (Jack Parc - Caddeirydd), George Hughes, Ceris Emlyn Thomas, Wil Roberts (Tai Christmas), Tom Jones (East Lynne), Ritchie Roberts (ysgrifennydd), Johnny Roberts.

Cefnogwch ein hysbysebwy

Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
Angen rhai Newydd? Os felly

☎ FFONIWCH ☎

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

Gwasanaeth Da am Bris anhygoel

hyn, a mwy, yn perthyn i Dic Ysgol Yrru Bethel.

Roedd Dic yn athro proffesiynol, yn brydlon ac yn ddibynadwy, yn ddyn a wnâi i'r disgybl mwyaf crynedig ymlacio yn ei gwmni.

Roedd o hefyd yn gyson foneddigaidd, tasg nid bychan yng nghanol cyffordd neu gylchfan brysur iawn - a'r disgybl wrth y llyw yn methu gwahaniaethu rhwng ei law dde a'i law chwith!

Roedd Dic hefyd yn un o'r bobol brin iawn a feddai'r ddawn o fedru cywiro HEB feirniadu - cto yn dipyn o gamp wrth i chi fethu bacio mewn lein syth, i mewn i lôn wag, neu ar ôl i chi gyflawni'r 99-point-turn gwaethaf erioed yn hanes y byd moduro! Ac mi fedra i dalu teyrnged o brofiad, sut y bu iddo lwyddo i galonogi'r ymgeisydd mwyaf siomedig a di-hyder i ailafael yn y llyw wedi i mi fethu'r prawf hollbwysig ar strydoedd Bangor - a hynny ar ôl i mi dyngu na fentrwn i sêr y gyrrwr byth eto! Ie, gwenu a wnaeth Dic a chynnig gwers yr un amser wythnos nesaf.

Saif yr hyn a ddysgais gan Dic wrth ddysgu dreifio car yn wersi gydol-bywyd. Sut i feithrin amynedd ynof fi fy hun, ac yn bwysicach fyth, amynedd tuag at eraill. Sut i gymryd fy lle yn hyderus yn llif traffig y ffordd fawr ac eto i gyd, barchu dymuniadau amrywiaeth eang o deithwyr. Sut i beidio â gwylltio na gorymateb, ond yn hytrach symud ymlaen yn bwyllog ac yn feddylgar, yn gwrtais ac yn gymwynasgar. Ie, bûm yn ddigon ffodus, a dweud y gwir yn ddigon breintiedig, i gael athro da a dylanwadol yn yr holl bethau hyn. Byddaf yn ddyledus iddo weddill fy oes, a diolch amdano.

- Y Ffordd, Y Gwirionedd a'r Bywyd. Eirlys ei wraig a'r genod, Carys ac Eirian, oedd canolbwynt ei fywyd. Y nhw ac Alun, ei wŷr bach. Hoffai ddathliadau teuluol o bob math, yn enwedig dathlu'r Nadolig. Byddai Taid, gyda chymorth Alun, yn addurno't tŷ nes ei fod yn werth ei weld. Hoffai arddio a cherddoriaeth. Yn swm y gerddoriaeth 'Mae'n Amser i Ddweud Ffarwel' y gadawodd Dic gapel Bethel am y tro olaf.


Huned ei enaid hoff mewn heddi.

Hugh Richard Jones BEM

Ar 9 Mehefin 2003 bu farw Hugh Richard Jones yn 92 mlwydd oed. Dyma un o wŷr amlyca pentref Llanberis. Bedyddiwyd ef yn Hugh Richards Jones, ond Hugh Richard Jones neu Hugh Rich ydoedd i'w gyfoedion a'i ffrindiau. Ymfalchiai bob amser pan gyfeiriai rhywun ato fel 'tad Elwyn Hogia'r Wyddfa'. Cofiaf ef yn cyfeirio at ei enw ar raglen Nia Roberts, Radio Cymru, un bore, ac yn ei ffordd ddihafal ei hun meddai, 'Hugh RICH fydda'r mwyafrif yn fy ngalw er mai magwrfa DLAWD iawn ges i!' Dyna hiwmor sydyn y chwarel ar ei orau a dyna pam y byddai galw arno i arwain cyfarfodydd a nosweithiau llawen. Roedd yn storïwr heb ei fath gyda'i gof i'r diwedd fel y grisial. Yr oedd yn ddyn hyddysg a gwybodus ac yn ddarllenwr eang, er iddo orfod gadael Ysgol Brynrefail yn 1926 yn 15eg oed.

Ond fel prif beirianydd Chwarel Dinorwig, ac yna fel gwarchodwr Gilfach Ddu y cofir amdano. Dechreuodd fel prentis yn y chwarel yn 1926 ac am y chwe mis cyntaf bu'n rhaid iddo weithio'n ddi-dâl! Yna derbyniodd y cyflog syfrdanol o chwe cheiniog yr wythnos am weddill y flwyddyn. Bywyd caled oedd hwnnw gan ddechrau am chwech yn y bore o Bontrhythallt a dychwelyd erbyn chwech gyda'r hwyr. Gwelodd y chwarel yn ei bri gyda dros 3,000 o weithwyr yn llafurio ynddi - a gwelodd hi yn cau hefyd. Caewyd hi ym mis Gorffennaf 1969, er mawr siom iddo ef ac i gannoedd o chwarelwyr eraill. Ond beth am yr offer? Galwyd y derbynnydd a'r arwerthwr i mewn a dechreuwyd ar y dasg o brisio'r holl beiriannau a chelfi.

Gwacdodd calon y Prif Beirianydd, a oedd wedi ei gadw gan yr awdurdodau i arolygu'r gwerthianau. Trwy'r wasg a'r cyfryngau pwysodd yn drwm ar yr awdurdodau i gysidro troi y lle'n amgueddfa. Cysylltodd ag aelodau o Gyngor Arfon, yr Amgueddfa Genedlaethol yng Nghaerdydd ac Adran yr Amgylchedd yn Llundain. O'r diwedd



Hugh Richard Jones yn falch o arddangos ei hoff fangre ar ei gwpan - Capel Jerusalem

LLUN: EMERSON HUGHES

daethpwyd i gytundeb i droi y Gilfach Ddu yn amgueddfa chwarelyddol. Yn 1971 penodwyd ef gan yr Amgueddfa Genedlaethol i ofalu am y Gilfach Ddu. Yn dilyn llawer iawn o waith darparu agorwyd yr amgueddfa yn swyddogol yn 1972 gan gyflogi rhai o gyn chwarelwyr yr ardal fel tywyswyr ac arddangoswyr. Tyrodd y miloedd i'r Gilfach Ddu i flasgu a sawru glendid y gorffennol. Bu H.R. yn bennaf gyfrifol am berswadio'r awdurdodau perthnasol i atgyweirio un o brif atyniadau'r amgueddfa, sef yr hen olwyn ddŵr anferth a fu'n segur ers 1925.

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd
DEINIOLLEN
(01286) 870484

► Bysiau o 12 i 53 sedd

► Teithiau Lleol a Thramor

► Gwaith Contract

► Telerau arbennig i
bensinywyr, myfyrwyr a
phlant ysgol

Fe'i anrhydeddwyd ar ei ymdeoliad yn 70 oed gan yr Amgueddfa Genedlaethol, ac yna gan bwyllgor Ras yr Wyddfa. Ym 1982 fe'i anrhydeddwyd am ei holl waith, dros 54 mlynedd, drwy ei urddo â'r BEM.

Bu H.R. yn flaenor uchel ei barch, ac yn athro ysgol Sul yng Nghapel Preswylfa am flynyddoedd lawer. Pan gaewyd y capel fe symudodd i addoli yng Nghapel Jerusalem, Pentre Castell. Daeth yn flaenor yno hefyd. Talodd Y Parchedig Gwynfor Williams deyrnged o'r galon i'w hen athro ysgol Sul ddiwrnod ei angladd.

Collodd ei briod Ceinwen ugain mlynedd yn ôl, ond bu ei blant, Elwyn, Breda a Dilys a'u teuluoedd yn hynod ofalus ohono. Addolai'r wyrion a'r wyresau ef. Anfonwn ein cydymdeimlad llwyrat at y teulu yn eu colled a'u galar.



CASTELL BOWNSIO AR GYFER POB ACHLYSUR

Down â fo atoch
a'i nôl wedyn

Ffôn: 871782

Pa un o'r rhain sydd
bwysicaf?

YSWIRIO EICH Tŷ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad
yw cost yswiriant gyda **CDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)

Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Elfion (Penisarwaun)

CDH

Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055



Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: Danny a Nerys Roberts

Fframia Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd


Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

IVOR STUBLEY • KEITH ANDREW
KEITH BOWEN • ROB PIERCY

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CROESAIR MEDI



Gwahanol fathau o 17 i lawr sy'n cuddio yn yr atebion sydd heb gliwiau iddynt.

Ar Draws

- 1 Mae dawnn wyllt y ci di-gynffon mewn cytgod! (7)
- 4 Dwylo'r llong? (4)
- 6 Cymal canol y goes (4)
- 10 Tynnu allan ran o'r pendil euraidd (5)
- 11 Oes, mae digon o'r rhain ar y creigiau! (5)
- 12 Llefain o weld y wlad mewn terfysg (5)
- 13 Trefn defod grefyddol? (8)
- 14 Llwynogod (8)
- 18 Y rhai sy'n cyhwan yn nwylo'r llymanwyr? (7)
- 20 Pysgodyn mawr yr afon (3)
- 21 Un sy'n creu llenyddiaeth (5)
- 22 Ebol mewn gwacter? (5)
- 24 Yn gryf ac yn abl i wrthsefyll (5)
- 25 Coeden â ffrwyth melyn iddi (5)
- 27 Gall hwn sicrhau nad ydych yn gor-gysgu! (5)
- 29 Padell i ddal ymenyn ar ôl corddi ... (3)
- 30 a bwcedi (7)
- 32 1990 - 1999 (8)
- 33 Rhywbeth y gellir edrych arno (8)
- 39 Poen neu friw (3)
- 40 Ail berson unigol rhagenw personol dyblyg! (4)
- 41 Yn symud, ond heb agosáu (4)

I Lawr

- 1 Siarad dwli (5)
- 2 Rhwymedigach (5)
- 3 Un sy'n papuro a pheintio (7)
- 4 Offeryn i drin gwallt ar y copa? (4)
- 5 Aderyn benyw (3)
- 7 Ffyllaid!! (7)
- 8 Pwmpas rhai o nodiadau'r heddwad? (3)
- 11 Trywanu (5)

- 15 Megan arall, sy'n wahanol (5)
- 16 Dadansoddi y darn un oedd yn feddw! (7)
- 17 O'r rhywogaeth Salix (7)
- 19 Y ferch o'r anialdir? (3)
- 23 Rhoi rhywbeth mewn lle amrhodol (8)
- 24 Y rhan o'r ffrwyn sydd yn safn y ceffyl (5)
- 26 Yn hanner asyn ac yn hanner ceffyl! (3)
- 28 Enw canol creawdwr William Jones (7)
- 30 Cnaf budr yn y baw yn chwilio am aur (5)
- 31 Bob yn ail (7)
- 34 Dilyw (5)
- 35 I bentref ar y ffordd i Fachynlleth? Nace, oddi tanodd (5)
- 36 Canmoliaeth (4)
- 37 Rhag ei gywilydd!! (3)
- 38 Ymhell i fyny yn nhiriogaeth geifr y mynydd (3)

Derbyniais atebion i groesair mis Gorffennaf. Erbyn y dyddiad cau, gan Nansi Davies, Rhuthun; G. Gill, Bangor; Beryl Jones ac Ellen Pritchard, Garndolbenmaen; Enid Jones, Talysarn; Eluned Jones a D.B. Williams, Trefor; H.O. Hughes, Pwllheli; Gareth Oliver, Tregarth; N. Hughes, Cwmyglo; Gwen Griffith, Deiniolen; Dilys Roberts, Llanwnda; Rosemary Williams, Mynydd Llandegai; Pat Owen, Gaerfyrddin; Dilys A. Pritchard-Jones, Abererch; E.E. Jones, Rhoshirwaun; Geridwen Williams a Tegid Roberts, Llanrug; Margaret W. Roberts a Mair Evans, Gaernarfon; Jean Hughes-Jones a Catherine A. Jones, Rhiw; Ceinwen Williams ac Olwen Jones, Gaernarfon; Alice M Griffith a Megan Morris, Dinorwig; Jennie Williams ac M.P. Jones, Clynog; Olwen Owen, Moreen Lennon, Nan Owen a Vera Griffiths, Llanberis.

Enillydd croesair mis Gorffennaf ydi Mrs. Olwen Jones.

TYMOR NEWYDD

Erbyn bydd y tymor pêl-droed lleol yn cychwyn fe fyddaf wedi mudo ar fy ngwyliau dros y môr. Fe fydd y pedwar tîm lleol yn ceisio gwneud eu marc, a rhyfedd meddwl, am y tro cyntaf ers sawl tymor, ni fydd tîm o'r fro yng Nghynghrair Gwynedd. Fel pencampwyr y llynedd fe fydd Llanrug yn symud i 'fyny'r grisiau' i ymuno â'r hen elynion i fyny'r lôn yn Llanberis. Bydd cryn edrych ymlaen i gêm ddarbi go iawn y tymor yma.

Fel newydd ddyfodiaid, mae'n siŵr mai sefydlu eu hunain fydd prif bwrpas Llanrug. Yn amlwg, fe fydd angen ambell chwaraewr newydd i gryfhau carfan lwyddiannus y llynedd.

Mae Llanberis yn gyfforddus yn y gynghrair ond heb garfan ddigon cryf i herio'r

ceffylau blaen. I fod yn deg â'r Darans, ni allant gystadlu â'r 'arian gwirion' a delir gan rai o'r tîmau yn y gynghrair hon.

Tra'n sôn am y Darans, trist oedd cofnodi marwolaeth ddisymwth eu Trysorydd dros sawl tymor, Arfon Phillips. Dyma un a roddodd wasanaeth teilwng i'r tîm. Cofiaf yn dda am fy nghyfnod yn Llanbêr a 'llyfr bach' Arfon, lle roedd yn cofnodi y taliadau 'pres te'. Ddwy flynedd yn ôl roeddwn yn Llanbêr gyda chamera'r Eco a tynnais lun o Arfon yn torri gwair Maes Padarn, yn paratoi ei 'acer hoff' ar gyfer y tymor. Mor eironig mai yno y daeth ei farwolaeth ddisymwth, eto yn paratoi. Diolch i Arfon - a sawl un tebyg iddo - am eu gwasanaeth di-dâl, diflino sy'n cynnal sawl tîm lleol.

Bydd darbi yng Nghynghrair Arfon hefyd gyda Deiniolen a Bethel yn herio'i gilydd. Efallai, wedi dwy flynedd ddi-lwyddiant, y bydd yn haws i dîm ieuanc Deiniolen ymdopi yn y gynghrair leol. Mae rhai o'r chwaraewyr wedi cynrychioli'r ddau dîm, felly dipyn o sbars efallai ar 28 Awst ar Faes y Bwthyn.

Bydd hwn yn dymor pwysig i dîm Bethel. Yn ddiarnheul cafwyd cryn lwyddiant mewn sawl cwpan yn eu dwy flynedd o fodolaeth. Yn y bôn, ennill y bencampwriaeth ac esgyn i Gynghrair Gwynedd fydd y nôd. Buasai hyn yn sbardyn hefyd i gael maes sefydlog i'r tîm yn y pentref. Y mae'r trefniadau oddi ar y cae yn gadarn iawn a'u dull o hysbysebu yn anhygoel. Ennill prif safle y we yn y byd pêl-droed - anhygoel, a'r chwaraewr o Nigeria yn cysylltu eisiau chwarae iddynt! Tipyn o stori! ond rhaid ennill y bencampwriaeth. Ni fydd yn hawdd, gan y bydd tri neu bedwar clwb yn ymgiprys am y tlws. Llanrug a'u hail dîm efallai? Cofier y byddent hwy yn gallu cyrraedd Cynghrair Gwynedd erbyn hyn os erys y tîm cyntaf yn y gynghrair uwch.

Mae'n siŵr y bydd rhai o garfan Gwynedd y llynedd yn symud i garfan Arfon eleni. Digon i gnoi cil drosto, fel pob tymor. Os gwn i beth fydd y sefyllfa pan ddychwelaf adref ddiwedd Awst.

O, ia! gobeithio hefyd, erbyn hynny, y bydd ein tîm cenedlaethol yn agosach i gyrraedd Portiwgal yr haf nesaf. Dyna fasai sbardun i bêl-droed Cymru.

RHODDION

£20: Nancy Lovatt a'r teulu, Aberystwyth, er cof am George Lovatt. John a Menna Williams, Minffordd, Llanrug.

£10: Glenys Roberts, 13 Maes Gwylfa, Deiniolen; Gareth, Y Wenallt, Llanrug; Mary Catherine Jones, Tan y Caerau, Deiniolen, er cof am Mair Rees Jones.

£5: Mona Parry a'r teulu, 13 Pentre Helen, Deiniolen; Wendy a Dylan, Y Felinheli; Teulu Parc, Waenfawr; Di-enw, Bethel; Mrs Maggie Lewis, Madryn, Llanrug; Mr J. P. Jones (Pyr), Bro Rhuddallt, Llanrug. Hugh R. Jones, Llanberis. Arfon Evans, Tŷ Eryri, Talysarn. Wyn Rowlands, Glanrafon, Cwm-y-Glo.

£3: Lynne Roberts, 10 Rhes Cynfi, Deiniolen; Mari Wyn Ellis, 3 Hafod Oleu; Bethan a Macari, 66 Pentre Helen.




5, Eryri Estate, Bethel, Caernarfon, LL55 1BX. Llongyfarchiadau a £5 i chi.

Ar ôl cwblhau croesair mis Medi, gyrrwch eich atebion at Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun, Gwynedd, LL55 3HE erbyn Medi 20ed.

CHWARAEON

Ail Gyfle



Peth prin yw hyn ym myd y campau. Cymryd y cyfle pan gyfyd yw'r hanes fel arfer, ond nid felly i Tom Evison, y cricedwr amryddawn o Gae Hopcyn, Caeathro.

Ddwy flynedd yn ôl gwahoddwyd Tom i lawr i Lords i feithrinfa griced yr MCC. Nôd y cwrs yma yw meithrin talentau chwaraewyr addawol, a'u paratoi ar gyfer gyrfa fel cricedwyr proffesiynol. Yn dilyn ei arhosiad yn Lords cafodd Tom gytundeb blwyddyn gyda Morgannwg. Chwaraeodd yn rheolaidd i ail dîm y sir, a bu'n aelod o'r cynllun academi sydd gan bob un o'r siroedd dosbarth cyntaf erbyn hyn. Yn anffodus i Tom, roedd Robert Croft a Dean Carter yn blaenori yn y sir, a hwythau fel sawl sir, yn brwydro'n ariannol. I gymhlethu pethau hefyd tarwyd Tom gyda dôs ddrwg o *glandular fever*, sydd yn gwanhau yr unigolyn. Dychwelodd Tom yn ôl adref i chwarae i glwb Bangor yng Nghynghrair y Gogledd.

Cafwyd sawl perfformiad da ganddo ac yna daeth galwad ffôn oddi wrth Clive Radley, rheolwr y cynllun hyfforddi yn Lords. Rocdd gwahoddiad i Tom ddychwelyd i Lords - ac yno y mae erbyn hyn. Yn ei gêm olaf cyn teithio rhoddodd Tom berfformiad gwych i dîm dan 19 Gwynedd yn erbyn Sir y Fflint. Sgoriodd 64 rhediad a chipio 6 wiced am 156 rhediad.

Cyrhaeddodd Lords, wrth gwrs, ar drothwy'r gêm brawf hanesyddol ble colbiodd De Affrica'r Saeson mewn pedwar diwrnod.

Rhan o ddyletswyddau'r chwaraewyr ieuanc yn Lords yw bowllo at fatwyr y ddwy wlad yn y rhwydi yn ystod y diwrnod paratoi cyn y gêm. Cefais wybod gan Tom ei fod wedi cipio mwy o wicedi Seisnig nac Affricanaidd - arwydd o beth oedd i ddod efallai.

Gobeithio y bydd pethau yn mynd o'i blaid y tro yma, ac y gwelwn Tom yn gwireddu ei freuddwyd o chwarae criced dosbarth cyntaf i Forgannwg.

Tlws yr Eco 2003

Daeth yr haul a daeth yr hwyl. Ie wir, cafwyd dwy noson o adloniant pur. Sail y llwyddiant heb amheuaeth yw ymddygiad gwych y dau gant o blant sy'n heidio yno. Hefyd, rhaid canmol parodrwydd y rhieni a swyddogion y clybiau i dorchilleyws a helpu ar y noson. Yn goron ar y cwbl mae cefnogaeth anhygoel Robin Williams, staff a chyfeillion ysgol Llanrug. Dechrau am chwech, ac mae rhywun yn gwybod fod popeth yn barod.

Fel y dywedais lawer tro, rwyf yn fodlon flinedig ar ddiwedd noswaith - neu erbyn hyn nosweithiau - yr Eco! Diolch i bawb unwaith eto.

Rwy'n ymddiheuro i ambell dîm dan 7 na chawsant sylw priodol efallai, ond rwy'n siŵr, erbyn y flwyddyn nesaf, y bydd yn rhaid cymryd y tŵf yn yr oedran yma i ystyriaeth.

Unwaith eto, diolch i'r sawl fu'n gyfrifol yn gwarchod y gystadleuaeth bêl-rwyd. Diolch am barodrwydd y genethod i gynnal y gystadleuaeth hon.

Y mae'r llwyddiant o reidrwydd yn creu ei broblemau oherwydd y tŵf anorfod. Yn amlwg, anheg fuasai gosod y beichiau yn flynyddol ar yr un 'hen griw'. Erbyn hyn mae pob pentref yn ardal yr Eco gyda chyfleusterau i gynnal y ddwy gystadleuaeth. Fy mwriad felly yw galw cyfarfod o gynrychiolwyr y pentrefi/ clybiau yn ystod y gaeaf i drefnu'r cystadlaethau y blynyddoedd nesaf, gyda'r bwriad o gael cystadleuaeth 'symudol' o gwmpas y fro. Mae hyn yn rhoi cyfle i bob pentref roi ei stamp unigryw ar y gystadleuaeth. Hefyd mae'n gyfle i ambell gronfa/sefydliad yn y pentref godi arian drwy'r gweithgaredd.

Ymlaen at y gystadleuaeth bêl-droed. Gwledd yn wir, ond pethau prin iawn oedd goliau ar y noson. Efallai erbyn hyn, o gofio maint y plant hyn, fod y goliau braidd yn fach. Yn yr oedran Bl 5 a 6 daeth saith tîm i ymgiprys gyda thimau yn cynrychioli Llanrug, Llanberis, Bethel a Deiniolen. Roedd pob tîm yn chwarae yn erbyn ei gilydd a, chydau'r ddau dîm ar y brig yn cyfarfod yn y rownd derfynol, roedd yn gystadleuaeth glos.

Gorffennodd Deiniolen a Llanrug 'A' gyda 7 pwynt; Bethel 'A' gydag 8 pwynt, ond y ddau oedd ar y brig gyda 9 pwynt oedd Llanberis 'Glas' a Bethel 'B'.

Am y tro cyntaf cafwyd swyddogion arbennig ar gyfer y rownd derfynol, sef tri o ddisgyblion Brynrefail. Diolch am eu cymorth yn ystod y noson. Y dyfarnwr oedd Aled Williams, a reolodd y gêm yn dda iawn. Defnydd 'Colina' lleol yma. Yr un modd ei ddau lumanwr, Caerwyn George a Gwyn Jones. Cafwyd rownd derfynol deilwng iawn gyda'r gêm yn llifo o un gôl i'r llall. Hogia Llanberis ddaeth i'r brig o 2-0, ac am ddwy gôl! Llion Jones sgoriodd y ddwy, un o 25 llath a'r llall o 30 llath. Dwy ergyd haeddiannol i fynd â'r tlws a'r medalau i Lanbêr. Nos Fercher wych oedd hon.

Y noson cynt daeth 8 tîm i ymgiprys am dlws Bl. 3 a 4 - timau o Lanrug, Bethel, Llanberis a'r Waunfawr. Cafwyd dwy gynghrair o bedwar tîm a chafwyd mwy o goliau yn yr oedran yma, yn wir ar wahaniaeth goliau yr aeth y timau drwodd i'r rownd gyn-derfynol.

Yno curodd Bethel 'A' dîm Llanrug Melyn ar ôl gêm agos iawn. Yn y gêm arall roedd yr Waunfawr yn herio Llanberis Melyn. Y Waun a orfu mewn gêm agos, ond i Fethel yr aeth y tlws eleni.

* * *

Ar iard yr ysgol cafwyd dwy noson o gystadlu brwd ar y cwrtau pêl-rwyd. Unwaith eto roedd arwyddion o hyfforddi a safon dda o chwarae. Yn yr oedran hyn yr hen elynion, Llanrug a Bethel, oedd yn herio'i gilydd ac i'r tîm 'cartref' yr aeth y darian. Diolch i'r chwe thîm a ddaeth i'r gystadleuaeth.

Pedwar tîm oedd yn herio'i gilydd yn nghystadleuaeth Bl. 3 a 4 a'r tro yma, aeth y tlws i Lanrug gyda thîm Einir (Bethel) yn ail.

Y flwyddyn hon, wedi'r cystadlu brwd, yr herio a'r hwyl, fe wnaed elw hefyd i'r papur bro - felly diolch i bawb ar ran pwyllgor y papur.


Balchder Bro

Unwaith eto rhaid canmol dawn a dycnwch y criw sy'n trefnu Ras yr Wyddfa. Denir llu yma i herio'r mynydd ac, yn naturiol iawn, mae'n gaffaeliad hefyd i economi'r ardal. Y mae'r statws rhyngwladol a roir i'r ras erbyn hyn yn glod teilwng i'r sefydlwyr. Y mae rhywbeth yn rhamantus hefyd yn y syniad o rhedwyr lleol yn herio mynydd ar eu 'stepan drws'. O gofio amgylchiadau rhedeg y ras boed yn wlawog, niwlog neu mewn gwres llethol, mae'r amseroedd yn anhygoel. O gofio mai amaturiaid yw'r mwyafrif o'r rhedwyr mae'n deyrnged i'w hymroddiad, ffitrwydd a'u penderfyniad. Onid y rhain yw gwir bwrpas unrhyw gamp - yr unigolyn yn herio'i hun i gyflawni tasg.

Yr Apêl Flynyddol

Ar fis Medi mae fy 'mlwyddyn' chwaraeon i yn cychwyn. Fy mwriad dros y blynyddoedd fu adlewyrchu'r llu campau sy'n britho'r fro, yn enwedig cyfraniad a thalentau ieuanc yr ardal. Heb gael y wybodaeth honno, undonnog yw unrhyw rifyn sy'n ddelio â'r un gamp, yr un timau a'r un unigolion. Gwerth unrhyw bapur bro yw ei fod yn groncl o hanes cyfnod, ac yn sicr mewn blynyddoedd i ddod bydd rhai yn bwrw golwg yn ôl drwy gyfrwng colofnau'r Eco. A wnewch chi roddi cymorth i olygydd chwaraeon 'prysur' drwy fy moddi gyda storïau - a lluniau - fel y gellir cynnal colofn fresh!

Fe fydd blwyddyn yn hedfan heibio a'r her fydd cynnal rhywbeth mor llwyddiannus. Gyda gweledigaeth a chymorth y pentrefi rwy'n argyhoeddedig y gallwn gynnal y gystadleuaeth hynod o lwyddiannus yma. Diolch i bawb.



Tîm Pêl-rwyd Bethel